Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Uned Cymunedau a Dosbarthu y Loteri Genedlaethol

Arian y Loteri: Y Saith Mlynedd Cyntaf

Cynnwys

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

1. Cyflwyniad

Trefniadaeth y Loteri Genedlaethol
Dosbarthu incwm
Arian i Achosion Da
Diwygio trefn ddosbarthu'r Loteri

2. Cefnogi Achosion Da

Y Celfyddydau
Chwaraeon
Elusennau
Treftadaeth
Mileniwm
Addysg, Iechyd a'r Amgylchedd

3. Effaith Gymdeithasol ac Economaidd:

Delio ag amddifadedd a thlodi
Helpu grwpiau difreintiedig
Plant a phobl ifanc
Helpu i drawsnewid cymunedau
Buddsoddi mewn pobl
Grantiau lleol bach: Awards for All
Y Loteri fel hwb i adfywiad
Creu swyddi

4. Bod o fudd i Bawb yn y Deyrnas Unedig

Mynediad cyfartal i bawb
Dosbarthiad daearyddol

5. Diweddglo

Crynodeb o arian a ddyfarnwyd gan y Loteri

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Mae sefydlu'r Loteri Genedlaethol wedi bod yn rym pwysig wrth wella ansawdd bywyd pobl ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig. Mae poblogrwydd y Loteri o ran y tocynnau a werthir wedi bod yn llawer mwy na'r disgwyl. Mae oddeutu 30 miliwn o bobl yn chwarae bob wythnos, gan rannu'r freuddwyd o ennill y jacpot, neu un o'r miloedd o wobrau llai. Mae pobl yn chwarae oherwydd eu bod yn dymuno ennill ac oherwydd eu bod yn cael pleser o gefnogi achosion da'r Loteri – y celfyddydau, chwaraeon, elusennau, treftadaeth, y Mileniwm ac addysg, iechyd a'r amgylchedd. Byddwn yn cadw'r cyfran presennol o incwm y Loteri a roddir i'r celfyddydau, treftadaeth, chwaraeon ac elusennau tan o leiaf ddiwedd y cyfnod trwyddedu nesaf yn 2009.

Mae'n un o'r loterïau mwyaf llwyddiannus yn y byd, ac mae eisoes wedi codi dros £12 biliwn i achosion da. Mae wedi dosbarthu dros 97,000 o grantiau. Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r llwyddiant hwnnw ac yn dymuno ei weld yn parhau.

Ond ni ellir mesur llwyddiant y Loteri trwy ddefnyddio ystadegau sych yn unig. Efallai fod prosiectau mawr megis y Dôm wedi cael sylw'r wasg ond mae llwyddiant gwirioneddol y Loteri i'w weld yn y grantiau a ddyfarnwyd ledled y wlad. Mae'n ymwneud â'r clwb newydd i bobl hŷn, neu'r digwyddiad chwaraeon i bobl gydag anableddau, neu'r parc a drawsnewidiwyd o lecyn o dir anial ac sydd bellach yn ffynhonnell o falchder lleol sy'n ffynnu. Mae'n ymwneud â meithrin hyder pobl, dysgu sgiliau newydd a chysylltu â gweddill y gymuned. Y rhain yw'r elfennau sy'n dangos beth mae'r arian a ddosberthir gan y Loteri i achosion da yn ei gyflawni.

Mae diwedd cyfnod trwydded saith mlynedd cyntaf y Loteri yn adeg addas i ystyried cyflawniadau'r Loteri hyd yn hyn. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r hyn o gyflawnwyd eisoes yn ystod y cyfnod hwnnw, lle'r aeth yr arian a phwy sy'n elwa ohono.

Un o'r materion pwysicaf oedd yn wynebu'r Llywodraeth hon oedd sicrhau ei bod yn haws i bobl a chymunedau fanteisio ar y Loteri a sicrhau ymateb ganddo. Cynlluniwyd dull gweithredu newydd wrth ddosbarthu arian y Loteri, a nodwyd yn niwygiadau 1998, er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei ddosbarthu'n deg ac yn gyfartal yn wyneb yr anghenion ym mhob rhanbarth a phob rhan o'r Deyrnas Unedig, a rhwng gwahanol grwpiau mewn cymdeithas. Mae'r diwygiadau hynny eisoes yn gwneud gwahaniaeth a dylent barhau i wneud hynny yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Crëwyd y Gronfa Cyfleoedd Newydd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998 er mwyn hyrwyddo mentrau newydd ac arloesol yn y meysydd sy'n peri'r pryder mwyaf i bobl – addysg, iechyd a'r amgylchedd. Mae'r achos da newydd hwn

wedi galluogi nifer o fentrau y mae angen dybryd amdanynt, ac na fyddent wedi cael arian fel arall, i barhau.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod yr arian a godwyd ar gyfer achosion da yn cael ei ddosbarthu'n deg ledled y wlad; mae rhai ardaloedd yn wynebu problemau mawr sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol arnynt i gael cyfran teg o'r arian. Mae cynlluniau ardal megis Brass for Barnsley, a ddosbarthodd £3 miliwn i gymdeithasau cymunedol a gwirfoddol lleol, wedi llwyddo i sicrhau arian y Loteri lle mae'r angen mwyaf amdano, ond mae angen gwneud rhagor. Dyma'r rheswm dros gyhoeddi menter newydd sy'n werth £150 miliwn ym mis Mehefin 2000 er mwyn helpu i sicrhau bod cymunedau dan anfantais ledled y wlad yn cael cyfran tecach o arian y Loteri.

Mae'r cyhoedd wedi chwarae rhan fawr yn llwyddiant y Loteri trwy ei gyfraniad enfawr a'i ymrwymiad i'r cynlluniau hyn. Mae hyder y cyhoedd yng ngonestrwydd y Loteri wrth wraidd ei lwyddiant parhaus. Mae pobl yn parhau i chwarae oherwydd eu bod yn gwybod bod eu harian yn cael ei ddefnyddio'n dda. Er mwyn parhau i sicrhau incwm ar gyfer achosion da a chefnogaeth ehangach y cyhoedd i'r Loteri, mae'n bwysig bod pobl yn deall yn well y posibiliadau mae'r Loteri wedi'u hagor. Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at wireddu'r uchelgais hon.

Ond beth am y dyfodol? Er bod y Loteri wedi bod yn llwyddiant ysgubol hyd yn hyn, ni allwn fentro gorffwys ar ein rhwyfau. Ni all y rhai sydd â chyswllt agos â'r Loteri, y Llywodraeth, Camelot a chyrff dosbarthu'r Loteri fforddio llaesu dwylo. Rhaid i ni barhau i fonitro cynnydd y gwaith o ddosbarthu arian y Loteri yn ofalus er mwyn sicrhau bod pawb ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig yn manteisio arno.

Credaf fod y Loteri'n ymwneud â breuddwydion: y freuddwyd o ennill y jacpot; ond yn ogystal, y freuddwyd o wella ansawdd bywyd pob un ohonom a chenedlaethau'r dyfodol. Dewch i ni barhau i wireddu'r breuddwydion hyn.

Tessa Jowell

1. Cyflwyniad

Trefniadaeth y Loteri Genedlaethol

Lansiwyd y Loteri Genedlaethol ym mis Tachwedd 1994, er mwyn codi arian ar gyfer amrywiaeth o achosion da, ac felly bod o fudd i'r cyhoedd a gwella ansawdd bywyd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad hwn yn delio â chyfnod trwydded cyntaf y Loteri tan fis Medi 2001.

Trwy Ddeddf Loteri Genedlaethol ac ati 1993 sefydlwyd pum maes fyddai'n elwa o gymorth y Loteri gan: chwaraeon; y celfyddydau; treftadaeth; elusennau; a phrosiectau i ddathlu'r flwyddyn 2000 a chychwyn y trydydd mileniwm. Yn ogystal, ffurfiwyd chweched achos da gan Ddeddf Loteri Genedlaethol 1998, gan sicrhau bod arian yn y Loteri yn medru ariannu prosiectau arloesol ym myd addysg, iechyd a'r amgylchedd.

Camelot sy'n gweithredu'r Loteri Genedlaethol. Tasg Camelot yw rhedeg y Loteri Genedlaethol yn gyfrifol ac yn effeithlon, ac mewn ffordd fydd yn codi cymaint o arian â phosibl ar gyfer yr achosion da. Dyfarnwyd y drwydded wreiddiol i Camelot redeg y Loteri Genedlaethol ym 1994 yn dilyn proses ymgeisio gystadleuol pan wnaethant gynnig rhoi mwy i achosion da nag unrhyw ymgeisydd arall.

Caiff y Loteri ei reoleiddio gan Gomisiwn y Loteri Genedlaethol sy'n cynnwys pum unigolyn. Ei ddyletswyddau yw amddiffyn buddiannau'r chwaraewyr, sicrhau bod y Loteri yn cael ei redeg yn gywir, a manteisio'n llawn ar y swm a godir ar gyfer yr achosion da. Ar ôl gwerthuso'r gwahanol geisiadau, mae'r Comisiwn wedi penderfynu dyfarnu'r drwydded saith mlynedd nesaf i Camelot.

Swyddogaethau a dyletswyddau

Chwaraewyr

Y LLYWODRAETH **Y Loteri Genedlaethol**

Comisiwn y Loteri Genedlaethol **CAMELOT**
Yn rheoleiddio gweithredwr y loteri

Trysorlys EM **Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol** **Gwobrau**

ACHOSION DA

Dosbarthu incwm

Rhennir yr arian y mae chwaraewyr yn ei wario ar docynnau'r Loteri ymysg y budd-ddeiliaid canlynol yn fras fel a ganlyn:

Enillwyr gwobrau

Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol
(ar gyfer yr achosion da)

Y Trysorlys, trwy gyfrwng Toll y Loteri

Manwerthwyr

Camelot, gan gynnwys Costau Gweithredu o 3%, Elw o 1% a Threthi Busnes a Chorfforaethol o 1%

Arian i Achosion Da

Rhennir incwm Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol rhwng yr achosion da fel a ganlyn: 16 2/3% yr un ar gyfer y celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth ac elusennau; a 33 1/3% ar gyfer iechyd, addysg a'r amgylchedd. Rhennir yr arian ar gyfer y celfyddydau a chwaraeon ymhellach ymysg gwledydd y Deyrnas Unedig. Cyn mis Awst 2001, rhoddwyd 20% o'r arian i brosiectau i ddathlu'r Mileniwm a 13 1/3% o'r arian i brosiectau'n ymwneud ag addysg, iechyd a'r amgylchedd.

Sut y dosbarthwyd yr arian ym mis Gorffennaf 2001

Y Celfyddydau
Chwaraeon
Elusennau
Treftadaeth
Mileniwm
Addysg, Iechyd a'r Amgylchedd

Nid y Llywodraeth sy'n gyfrifol am ddosbarthu elw'r Loteri, ond yn hytrach, nifer o gyrff dosbarthu annibynnol:

Achos da	Cyrff sy'n dosbarthu
Y Celfyddydau	Cyngor Celfyddydau Lloegr Scottish Arts Council Cyngor y Celfyddydau Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon Y Cyngor Ffilmiau Scottish Screen
Chwaraeon	Sport England Sportscotland Cyngor Chwaraeon Cymru Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon UK Sport
Treftadaeth	Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Elusennau	Y Gronfa Gymunedol (Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol yn flaenorol)
Mileniwm	Comisiwn y Mileniwm
Addysg, Iechyd a'r Amgylchedd	Y Gronfa Cyfleoedd Newydd

Mae dosbarthwyr yn gyfrifol ac yn atebol am ddosbarthu arian y Loteri yn eu sectorau, ac am benderfyniadau unigol ar geisiadau i'r Loteri. Serch hynny, rhaid iddynt ystyried cyfarwyddiadau polisi a gyhoeddir gan Weinidogion. Mae'r rhain yn gosod fframwaith ar gyfer amcanion ehangach arian y Loteri, mathau o brosiectau a meini prawf cyffredinol grantiau. Rhaid i'w dulliau a'u trefniadau rheoli ariannol gydymffurfio â Chyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddir gan Weinidogion.

Seiliwyd y drefn o ddosbarthu arian y Loteri ar dair egwyddor sylfaenol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn manteisio'n llawn ar yr arian:

- **dylai prosiectau sicrhau budd i'r cyhoedd yn hytrach na sicrhau elw preifat yn bennaf**
- **mae'r cyrff dosbarthu yn gwneud penderfyniadau diduedd ynghylch grantiau unigol**
- **dylai grantiau'r Loteri fod yn ychwanegol at wariant craidd gan y Llywodraeth.**

Diwygio'r drefn o ddosbarthu arian y Loteri

Yn ogystal â chyflwyno'r achos da newydd a chreu dosbarthwr newydd, y Gronfa Cyfleoedd Newydd, newidiodd Deddf Loteri Genedlaethol 1998 ddyletswyddau a phwerau dosbarthwyr arian y Loteri. Cynlluniwyd y newidiadau hyn i'w galluogi i fod yn fwy strategol a gweithredol, i gydweithio, i wneud penderfyniadau yn fwy lleol a sicrhau bod y system ymgeisio'n haws i'w dilyn. O ganlyniad i'r newidiadau hyn:

- **mae angen i ddosbarthwyr lunio cynlluniau strategol er mwyn defnyddio arian y Loteri. Rhaid i'r cynlluniau hyn adlewyrchu eu hasesiad o anghenion eu sectorau**
- **gall dosbarthwyr ofyn am geisiadau ar gyfer prosiectau arbennig. Dylid defnyddio'r pŵer hwn pan mai'r unig ffordd, neu'r ffordd fwyaf effeithiol, o gyflawni elfen arwyddocaol o'r cynllun strategol yw gofyn am geisiadau**
- **gall dosbarthwyr ddirprwyo'r penderfyniadau ynghylch grantiau naill ai yn fewnol, i bwyllgorau neu swyddogion, neu'n allanol, i ddosbarthwr, asiantaeth neu gorff lleol arall**
- **gall dosbarthwyr gyfuno cronfeydd a chydweithio ar gynlluniau ar y cyd yn haws nag yr oeddent yn gallu'i wneud yn flaenorol.**

Cyhoeddwyd cyfarwyddiadau polisi diwygiedig gan y Llywodraeth yn 1998 hefyd oedd yn:

- **annog dosbarthwyr i sicrhau bod pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn gallu manteisio ar arian**
- **rhoi cyfle i ddosbarthwyr i leihau amddifadedd economaidd a chymdeithasol ar yr un pryd ag y maent yn creu buddion i'w sectorau**

- tanlinellu'r angen am fwy o bwyslais ar bobl, gweithgareddau a mynediad
- tynnu sylw at anghenion creadigol a datblygol arbennig plant a phobl ifanc
- diddymu'r gofyniad am symiau sylweddol o arian partneriaeth ac annog dosbarthwyr i sicrhau cyfraniadau o ffynonellau eraill
- annog dosbarthwyr i ystyried sut y bydd eu strategaethau'n cyfrannu at ddatblygu cynaladwy

2. Cefnogi Achosion Da

Y Celfyddydau

Mae'n bosibl i'r celfyddydau gyfoethogi bywyd pob un ohonom. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod hyn ac mae wedi ymrwymo i greu llwybrau gwell i unigolion ddatblygu a mwynhau eu potensial artistig a chreadigol ym mhob cam o'u bywyd, o'r cyfnod addysgol cyntaf i ragoriaeth broffesiynol.

Mae'r Loteri Genedlaethol wedi trawsffurfio'r tirlun ar gyfer artistiaid a chynulleidfaoedd. Mae'r arian wedi helpu pobl ledled y Deyrnas Unedig i fwynhau ystod eang o weithgareddau o ansawdd uchel yn ymwneud â'r celfyddydau. Mae pedwar Cyngor y Celfyddydau y Deyrnas Unedig yn ymdrechu i hyrwyddo pwysigrwydd ymdrechion artistig i les ysbrydol, economaidd a chymdeithasol y wlad. Mae eu rhaglenni'n ceisio hyrwyddo'r celfyddydau trwy gefnogi'r cyflawniadau artistig gorau, trwy annog arloesedd ac ysbrydoli cynulleidfaoedd newydd. Mae grantiau'r Loteri wedi sicrhau bod mwy o bobl mewn mwy o leoedd yn gallu manteisio ar y celfyddydau.

- Erbyn mis Medi 2001 roedd Cynghorau'r Celfyddydau ledled y Deyrnas Unedig wedi dyfarnu dros 21,000 grant sy'n werth bron £1.8 biliwn.
- Mae Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi rhoi dros £1.45 biliwn i dros 15,000 o brosiectau, gan gynnwys 80 o leoliadau celfyddydau newydd sbon a bron i 600 o leoliadau celfyddydau wedi'u hadnewyddu, yn ogystal â dros 600 o brosiectau sy'n werth £300 miliwn fydd o fudd i blant a phobl ifanc.
- Mae Scottish Arts Council wedi dyfarnu bron 2,500 grant sy'n werth dros £154 miliwn.
- Mae Cyngor y Celfyddydau wedi dyfarnu dros £97 miliwn i 2,700 o brosiectau.
- Mae Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon wedi dyfarnu bron i 700 grant sy'n werth dros £40 miliwn.

Astudiaeth Achos

Canolfan Rhys Arts Centre, Penrhys, Rhondda

Canolfan Rhys Arts Centre, Penrhys
Bu grant o £326,000 gan Gyngor y Celfyddydau yn gymorth i drawsnewid bloc o dai adfeiliedig yn ganolfan cymunedol yn ymwneud â'r celfyddydau. Gwnaeth cyfanswm pellach o £62,249 gan Gyngor y Celfyddydau alluogi'r prosiect i sefydlu gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ynghyd â'u rhaglen reolaidd o weithdai cerddoriaeth, dylunio, celfyddydau gweledol a charnifal o ansawdd uchel. Yn ogystal, mabwysiadwyd Canolfan Rhys Arts Centre fel cleient refeniw newydd y Cyngor ym mis Chwefror 2000 ac mae'n cael grant o £22,000 y flwyddyn bellach.

Gwella isadeiledd cyfalaf y celfyddydau

Yn ystod blynyddoedd cynnar y Loteri, roedd y rhan fwyaf o'r arian a ddosbarthwyd i'r celfyddydau yn mynd ar brosiectau cyfalaf mawr. Mae theatrau, canolfannau celfyddydau, neuaddau cyngherddau ac orielau newydd wedi agor, gan sicrhau bod y celfyddydau'n agosach at gymunedau ym mhob cwr o'r wlad. O'r diwedd mae lleoliadau oedd yn adfeiliedig ac mewn cyflwr gwael wedi cael eu hadnewyddu i safonau'r unfed ganrif ar hugain ar gyfer cynulleidfa gyfoes sydd hyd yn oed yn fwy soffistigedig. Mae enghreifftiau o adeiladau a ariannwyd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr yn cynnwys Manchester Royal Exchange a New Art Gallery yn Walsall, ac mae Cyngor y Celfyddydau wedi ariannu amryw o brosiectau cyfalaf gan gynnwys ailddatblygu Canolfan Celfyddydau Aberystwyth, gan gynnig mwy o fynediad iddi. Mae Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon wedi ariannu 10 adeilad newydd sbon sy'n ymwneud â'r celfyddydau a diwylliant sy'n werth £16.6 miliwn, gan ddod â lleoliad pwysig iawn yn ymwneud â'r celfyddydau o fewn 20 milltir i bob unigolyn yn y rhanbarth.

Mae buddsoddiad gan y Loteri wedi cynnig cyfleoedd i benseiri a dylunwyr dawnus i greu neu addasu mannau sy'n ysbrydoli artistiaid a chynulleidfaoedd. Mae ansawdd a rhagoriaeth prosiectau adeiladu a ariannwyd gan y Loteri wedi'i gydnabod yn eang ac mae nifer o adeiladau wedi ennill gwobrau pensaernïol, gan gynnwys Dundee Contemporary Arts, y Scottish Poetry Library yng Nghaeredin a Llyfrgell a Chanolfan Celfyddydau Peckham yn Llundain.

Ariannu ystod amrywiol o brosiectau celfyddydau

Mae arian y Loteri wedi cefnogi amrywiaeth enfawr o brosiectau. Er enghraifft, mae'r Scottish Arts Council wedi cefnogi sinema symudol yn Ucheldiroedd yr Alban, bws llyfrau, y llyfrgell farddoniaeth genedlaethol, gorsafoedd radio lleol a dosbarthiadau ysgrifennu sgriptiau. Mae bandiau pibau, pres ac arian ledled yr Alban wedi cael adfywiad trwy ddarparu offer newydd, fydd yn annog cenedlaethau newydd o chwaraewyr. Yn yr un modd, mae Cyngor y Celfyddydau yn ariannu ystod eang o weithgareddau celf, gan gynnwys eisteddfodau lleol, operâu, celfyddydau gweledol a chrefftau Cymreig cyfoes.

Mae arian y Loteri wedi golygu hefyd fod mwy o ddrama, cerddoriaeth, dawns, celfyddyd weledol, llenyddiaeth a chelfyddydau gan gynnwys cyfryngau newydd bellach yn cyrraedd mwy o bobl ledled y wlad. Er enghraifft, estynnwyd dylanwad prosiect Arts are Ours rhanbarth Northern Arts, a gefnogwyd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, dros 200 o ysgolion a 16,000 o bobl ifanc gyda rhaglen o artistiaid preswyl ym mhob cwr o'r rhanbarth. Mae Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon wedi ariannu 142 gwaith celf newydd sy'n werth £4 miliwn, gan gynnwys dramâu newydd pwysig, cerflunwaith gyhoeddus a

gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc gan archwilio pynciau'n ymwneud â hunaniaeth ddiwylliannol a theimladau cymunedol ledled y rhanbarth.

Adfer a sefydlogi sector y celfyddydau

Mae arian y Loteri gan Gynghorau'r Celfyddydau wedi cael effaith gadarnhaol enfawr ar sefydliadau yn ymwneud â'r celfyddydau. Mae rhaglen Adfer Cyngor Celfyddydau Lloegr yn helpu sefydliadau yn ymwneud â'r celfyddydau sy'n wynebu methdaliad i ddatblygu cynlluniau adfer ar y cyd â'u prif fudd-ddeiliaid, er mwyn iddynt fedru sicrhau sefydlogrwydd gweithrediadol yn y tymor canolig. Hyd yn hyn, mae 32 o sefydliadau yn ymwneud â'r celfyddydau sy'n bwysig yn strategol wedi cael cymorth sy'n werth £26 miliwn.

Mae rhaglen Sefydlogi Cyngor Celfyddydau Lloegr yn helpu sefydliadau yn ymwneud â'r celfyddydau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd, i adolygu a newid eu cenhadaeth artistig a'u gweithrediadau busnes er mwyn sicrhau eu sefydlogrwydd ariannol a'u gallu creadigol yn yr hir dymor. Hyd yn hyn, mae 20 o sefydliadau wedi cael grantiau sy'n werth £24 miliwn. Heb yr arian hwn, yr unig ffordd y gallai nifer o'r sefydliadau hyn fod wedi goroesi fyddai trwy leihau gweithgarwch artistig a diswyddo gweithwyr, gan fod yn llai effeithiol wrth chwarae rhan llawn ym mywyd diwylliannol eu rhanbarth.

Sicrhau mwy o gefnogaeth gyhoeddus i'r celfyddydau

Dangosodd gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan MORI yn ddiweddar ar ran Cyngor Celfyddydau Lloegr bod cefnogaeth gyhoeddus eang i'r celfyddydau. Mae 78% o bobl yn creu bod gan y celfyddydau swyddogaeth allweddol ym mywyd y wlad ac mae 95% yn credu y dylai plant gael mwy o brofiad o'r celfyddydau yn yr ysgol.[1] Gellir priodoli'r agweddau cadarnhaol cyffredinol hyn yn rhannol, mae'n siŵr, i'r ffaith bod bron i £1.8 biliwn o arian y Loteri wedi cael ei fuddsoddi yn y celfyddydau hyd yn hyn, gan alluogi miliynau o bobl i gael profiad uniongyrchol o'r celfyddydau. Un enghraifft amlwg yw Angel of the North MBC Gateshead, a gafodd grant o £584,000 gan Gyngor Celfyddydau Lloegr. Mae'r strwythur hwn wedi cael dylanwad mawr ar yr ymdrech i newid barn y cyhoedd o'r celfyddydau a sicrhau bod mwy yn manteisio arno trwy gyfrwng cyswllt enfawr gan y gymuned.

Ffilm

Sefydlwyd y Cyngor Ffilmiau gan y Llywodraeth ar 1 Ebrill 2000 yn dilyn adolygiad helaeth o'r polisi ffilmiau, a'r Adolygiad Gwariant Cyffredinol. Roedd y Cyngor Ffilmiau yn ddosbarthwr newydd ar ran y Loteri, a dygodd nifer o asiantaethau ynghyd hefyd i weithredu fel corff arweiniol y diwydiant gyda'r nod o ffurfio diwydiant ffilmiau cynaladwy ym Mhrydain.

Aeth y Cyngor Ffilmiau ati'n syth i ailstrwythuro'r ffordd y buddsoddir arian y Loteri mewn ffilmiau. Clustnododd wendidau yn natblygiad ffilmiau, yn enwedig ysgrifennu sgriptiau, yn ogystal â'r angen am hinsawdd lle mae cwmnïau o Brydain yn ceisio gwneud cynhyrchiadau masnachol mwy. Er mwyn delio â'r anghenion hyn, aeth cronfeydd cynhyrchu a datblygu newydd y Cyngor 'yn fyw' ar 1 Hydref 2000. Mae'r cronfeydd cynhyrchu ar gyfer cynhyrchiadau nodwedd mawr (Premiere Fund) ac ar gyfer ffilmiau arloesol a wneir gyda chyllideb isel (New Cinema Fund) fydd yn helpu i ddatblygu technoleg newydd a chyflwyno talent newydd. Lansiwyd Cronfa Fuddsoddi Ranbarthol newydd ar gyfer Ffilmiau yn rhanbarthau Lloegr ym mis Mehefin 2000 (a ariannwyd yn rhannol gan y Loteri), ac yn ystod misoedd yr haf, mae'r Cyngor wedi cyflwyno First Light, ei fenter sy'n werth £1 miliwn i annog pobl ifanc i wneud ffilmiau digidol byr ac ystod o gynlluniau hyfforddi, a'r rhain i gyd yn cael eu hariannu gan y Loteri.

Mae arian y Loteri wedi cael cryn effaith ar gynhyrchu ffilmiau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig hefyd. Ers Ebrill 2000 Scottish Screen fu'r asiantaeth genedlaethol sy'n gyfrifol am bob agwedd o'r diwydiannau sgrîn yn yr Alban. Mae'n datblygu, yn annog ac yn hyrwyddo pob agwedd yn ymwneud â ffilm, teledu a chyfryngau newydd, gan weithio ar draws meysydd cynhyrchu a datblygu trwy wireddu sgriptiau ar y sgrîn. Trwy fod yn bartner mewn cynlluniau ffilmiau byr megis Tartan Shorts, New Found Land, Cineworks ac 8½ sydd wedi bodoli ers cryn amser, mae Scottish Screen yn cynnig cyfleoedd eang i'r rhai sy'n cynhyrchu ffilmiau.. Mae Cyngor y Celfyddydau wedi rhoi arian ar gyfer prosiectau ffilm sy'n werth dros £6 miliwn yng Nghymru. Mae'r prosiectau wedi cynnwys y ffilm a enwebwyd am Oscar, *Solomon a Gaenor* a *Happy Now*, a ddangoswyd am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ffilmiau 2001 Caeredin. Yn fwy diweddar, rhoddwyd mwy o bwyslais ar ddatblygu sgriptiau a hyfforddiant trwy gynhyrchu ffilmiau byr, gan gynnwys *Edith's Finger*, a enillodd wobr BAFTA Cymru ym 1999.

Astudiaeth Achos

Monster Theatre, North Tyneside

Mae Monster Theatre yn fenter gerddorol a theatrig arloesol a chyffrous sy'n cynnwys 600 o blant rhwng pedair a saith mlwydd oed mewn 20 o ysgolion yn ardal Newcastle a North Tyneside. Bydd grant o £78,000 gan Gyngor Celfyddydau Lloegr yn arwain at ddatblygu drama newydd, ynghyd â chynhyrchu dwy ddrama arall i'w perfformio mewn ysgolion.

Astudiaeth Achos

Janet Gray, yn cystadlu ar safon byd

Cafodd Janet Gray, sy'n cystadlu ar safon byd yn y gamp o sgïo dŵr i'r dall, gymorth y Loteri yn gyntaf gan Gyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth 1999 fel rhan o'r rhaglen i athletwyr dawnus. Galluogodd yr arian hwn iddi baratoi dros gyfnod o ddwy flynedd, ar gyfer Pencampwriaethau'r Byd yn Awstralia ym mis Mawrth 2001. Enillodd Janet dair medal aur yn y Bencampwriaeth, gan wneud yn well nag yr oedd wedi breuddwydio'i wneud. Yn ogystal ag ennill y cystadlaethau slalom, triciau a neidio, torrodd sawl record Ewropeaidd a Gwyddelig.

Chwaraeon

Gall chwaraeon gael effaith gadarnhaol dros ben ar fywydau pob un ohonom trwy sicrhau ein bod yn iachach a meithrin ymdeimlad ein bod yn rhan o'n cymuned. Pan fo'r wlad yn gwneud yn dda mewn cystadlaethau chwaraeon rhyngwladol, ceir teimlad o falchder cenedlaethol: roedd llwyddiant syfrdanol ein hathletwyr yn y Gemau Olympaidd yn Sydney yn ysbrydoliaeth. Gall chwaraeon wella ansawdd bywyd pawb hefyd a chynnig manteision arhosol mewn meysydd megis addysg, iechyd ac adfywio cymunedau a hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol.

Mae'r Llywodraeth wedi cychwyn y broses o sicrhau bod pob unigolyn ifanc yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon a thrwy ddatblygu llwybr eglur ac wedi'i strwythuro, cael y cymorth a'r gefnogaeth y maent ei hangen er mwyn gwireddu eu gwir botensial ym myd chwaraeon. Mae'r dogfennau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, A Sporting Future for All a Government Plan for Sport yn nodi'n fanwl sut y medrir cyflawni hyn.

Bydd ein gwaith yn y maes hwn yn allweddol wrth i ni wneud mwy i helpu pobl ifanc mewn ysgolion a dod o hyd i ffyrdd i annog mwy o bobl i barhau eu cyswllt â chwaraeon ar ôl iddynt adael yr ysgol trwy ddatblygu gwell cyswllt â chlybiau chwaraeon lleol. Byddwn yn rhoi mwy o gymorth i'r rhai sy'n ymwneud â chwaraeon hefyd, yn arbennig athrawon, hyfforddwyr a gwirfoddolwyr mewn clybiau chwaraeon lleol, er mwyn helpu i ganfod a datblygu talent yn y byd chwaraeon.

Mae arian y Loteri wedi sicrhau gwelliannau trawiadol ym myd chwaraeon trwy ganolbwyntio ar sicrhau cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag yw eu hamgylchiadau, i gymryd rhan mewn chwaraeon a helpu'r rhai sydd â dawn i wireddu eu potensial ym myd chwaraeon.

- **Erbyn mis Medi 2001, roedd y Cynghorau Chwaraeon ledled y Deyrnas Unedig wedi dyfarnu bron i 17,000 o grantiau oedd yn werth bron i £1.6 biliwn.**
- **Bu arian y Loteri yn gymorth i lwyddiant timau'r Deyrnas Unedig yng Ngemau Olympaidd 2000 yn Sydney. Enillon nhw 28 medal a chyrraedd y degfed safle yn nhabl y medalau, ac ennill 131 o fedalau yn y Gemau paralympaidd, gan gyrraedd yr ail safle yn nhabl y medalau.**
- **Mae dros 24,000 awr ychwanegol o chwaraeon yn digwydd bob wythnos yn Lloegr mewn cyfleusterau chwaraeon newydd a rhai wedi'u gwella, a ariannwyd gan y Loteri.**

Cyfleoedd chwaraeon i bawb

Mae llawer yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn y Deyrnas Unedig ac mae'n siŵr y cynigir gwell ddewis o weithgareddau nag yn unrhyw le arall yn y byd.

Fodd bynnag, nid yw pawb yn y wlad hon yn cael yr un cyfleoedd i gymryd rhan. Mae'r Cynghorau Chwaraeon wedi ymrwymo i wella cyfleoedd chwaraeon i bawb, gan sicrhau bod pawb yn medru cymryd rhan mewn chwaraeon a chael budd ohonynt. Mae arian y Loteri wedi sicrhau ystod o gyfleusterau o ansawdd uchel a fyddai wedi bod yn freuddwyd bell fel arall. Mae angen cyfleusterau chwaraeon o'r ansawdd gorau arnom os ydym yn mynd i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon a chefnogi'n chwaraewyr gorau wrth iddynt geisio dod i'r brig.

Yn Lloegr, buddsoddwyd dros £1 biliwn o arian y Loteri mewn dros 3,300 o gyfleusterau cymunedol hyd yn hyn. Rydym yn dechrau gweld manteision yr arian hwn gan fod dros 2,600 o'r cyfleusterau hyn bellach ar agor. O'r gwaith monitro a gwerthuso a wnaethpwyd hyd yn hyn, mae 77% o gynlluniau Sport England wedi cael eu graddio'n foddhaol neu'n well a gwelwyd cynnydd o 116% yn y nifer sy'n defnyddio'r cyfleusterau[2].

[2]. Cyfrifwyd y ffigurau gan ddefnyddio'r adolygiadau monitro a gynhaliwyd gan ystod o ymgynghorwyr annibynnol a gomisiynwyd gan Sport England ar gyfer y cyfnod o 1997 i 2001.

Gwariant mwyaf sportscotland oedd yr hyn a wariwyd ar y Rhaglen Gyfalaf sef 519 o ddyfarniadau a wnaeth gyfanswm o oddeutu £88 miliwn a chostau cyfan y prosiectau oddeutu £251 miliwn. Roedd y prosiectau a gafodd eu cynorthwyo o dan Raglen Gyfalaf sportscotland yn cynnwys 20 Cyfleuster Cenedlaethol, 14 Cyfleuster Rhanbarthol a 485 o brosiectau o arwyddocâd lleol. Blaenoriaeth y Rhaglen Cyfleusterau Chwaraeon, a lansiwyd ym 1999 fel olynydd i'r Rhaglen Gyfalaf, yw Prosiectau Ysgol a Phrosiectau Cymunedol. Mae prosiectau a gefnogwyd yn y modd hwn yn cynnwys darparu cyfleusterau chwaraeon newydd neu wedi'u gwella, mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod y gymuned ehangach yn medru eu defnyddio yn ogystal â sicrhau bod cyfleusterau gwell ar gael i ddisgyblion ysgol.

Er 1995, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi dyfarnu dros 3,500 grant, sy'n werth dros £70 miliwn. Yn genedlaethol, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cefnogi'r unig ganolfan Athletau Dan Do pwrpasol yn y Deyrnas Unedig, sydd wedi ennill gwobrau dylunio ac sydd wedi cael ei ganmol fel enghraifft o arfer da.

Gellir gweld y cyfleoedd chwaraeon ychwanegol a ddarparwyd gan arian Loteri Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon yn eglur mewn astudiaeth annibynnol o effaith arian cyfalaf. Nododd yr astudiaeth, oedd yn canolbwyntio ar glybiau a ariannwyd gan raglen gwobrau cyfalaf y Cyngor, bod oddeutu 60% o glybiau wedi llwyddo i godi nifer eu haelodau ers datblygu'r cyfleusterau a ariannwyd gan y Loteri. Ar gyfartaledd, cododd nifer yr aelodau gymaint â 17% yn y clybiau hyn a gynorthwywyd. O ran rhagoriaeth a hyfforddiant, roedd 65% o'r clybiau wedi codi nifer eu hyfforddwyr ers cael arian gan y Loteri. Nododd tri o bob pum clwb bod nifer y sesiynau hyfforddi a ddarparwyd ganddynt ar gyfer aelodau wedi codi[3].

[3] Astudiaeth Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon o Glybiau a Gefnogwyd gan y Loteri (MRC Ireland Cyf), Gorffennaf 1999.

Astudiaeth Achos

Canolfan Hamdden Gorbals, Glasgow

Buddsoddodd sportscotland £2.5 miliwn yn y Ganolfan a £225,000 arall mewn grant refeniw tair blynedd ar gyfer rhaglen ddatblygu sy'n cefnogi gwaith ymestyn allan a sesiynau a dosbarthiadau chwaraeon gyda chymhorthdal. Agorwyd y Ganolfan ym mis Ionawr 2001, gan ddarparu'r cyfleusterau hynny yn ardal Gorbals am y tro cyntaf ers 25 mlynedd.

Datblygu sêr chwaraeon y dyfodol

Mae'n dyfodol fel cenedl o chwaraewyr yn dibynnu ar gyswllt parhaus pobl ifanc â chwaraeon. Mae'r Cynghorau Chwaraeon yn cydnabod bod angen iddynt gadw'u diddordeb a'u hymrwymiad, pa un a ydynt yn ferched neu'n fechgyn, beth bynnag yw eu cefndir neu lefel eu gallu. Mae'r Loteri yn cynnig y cyfle i sicrhau bod pob unigolyn ifanc yn cael mwy o gyfle nag erioed o'r blaen i fanteisio ar gyfleusterau chwaraeon o ansawdd uchel. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i droi pobl ifanc y presennol sydd â photensial, yn enillwyr a phencampwyr y dyfodol.

Mae Sport England wedi dyfarnu dros £2 miliwn i'r Partneriaethau Active Sports am gyfleusterau ac offer. Mae Active Sports, rhaglen ddatblygu pum mlynedd, yn targedu naw o chwaraeon mwyaf poblogaidd Lloegr, gan gynnwys athletau, rygbi'r undeb a phêl fasged. Mae'r rhaglen yn ceisio helpu pobl ifanc i elwa mwy ar eu hymwneud â chwaraeon. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd Rownd Derfynol Gemau Ieuenctid y Mileniwm ym mis Awst 2000 yn Southampton. Mynychodd dros 6,500 o bob ifanc rhwng 13 a 15 oed y digwyddiad, gan gynrychioli 52 tîm o bob cwr o'r wlad.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cyflwyno Campau'r Ddraig, sef menter newydd i gynyddu nifer y clybiau ar ôl ysgol a'r cyfleoedd i blant ysgol gynradd, yn ogystal â recriwtio rhieni i helpu i drefnu chwaraeon ar ôl ysgol. Ar ôl llai na blwyddyn, mae'r cynllun wedi cyrraedd 229 o ysgolion, gan greu dros 400 o glybiau allgyrsiol mewn ysgolion a 98 o glybiau cymunedol sy'n cynnal gweithgareddau Campau'r Ddraig.

Mae Sport England a sportscotland wedi ariannu'r rhaglen Cyd-drefnwyr Chwaraeon Ysgolion, sydd wedi trefnu a datblygu chwaraeon mewn ysgolion a'i gyswllt â chymunedau lleol. Hyd yn hyn, dosbarthwyd bron £12 miliwn yn Lloegr, sydd wedi arwain at sefydlu 45 partneriaeth a phenodi 239 o gyd-drefnwyr. Yn yr Alban, cyflogir cyd-drefnwyr mewn 312 o ysgolion bellach, gan wasanaethu 75% o'r holl ysgolion uwchradd, a dengys ymateb cynnar o'r rhaglen gynnydd o 29% yn nifer y gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir a chynnydd o 41% yn nifer y rhai sy'n cymryd rhan.

Cynnal digwyddiadau chwaraeon mawr

Mae Rhaglen Digwyddiadau Safon Byd UK Sport yn sicrhau bod arian y Loteri ar gael i gynorthwyo trefnwyr digwyddiadau chwaraeon i ymgeisio am gystadlaethau chwaraeon pwysig a'u cynnal. Gyda chyllideb flynyddol o £1.6 miliwn o arian y Loteri, mae UK Sport wedi bod yn gysylltiedig â dod â dros 25 o Bencampwriaethau Byd ac Ewropeaidd i'r Deyrnas Unedig er 1997. Cefnogir y rhaglen hon gan raglenni a ariennir gan y Loteri yng ngwledydd Prydain sy'n cynnal digwyddiadau sy'n arbennig o berthnasol i'r gwledydd hynny a sicrhau eu bod yn cael eu trefnu a'u rheoli yn unol â safonau uchel yn yr un modd. Er enghraifft, mae sportscotland wedi cefnogi 24 digwyddiad er 1997 gan roi dros £1.1 miliwn a chefnogi chwaraeon mor amrywiol â hwylio, jiwdo, gymnasteg, criced, sboncen, hoci, tenis bwrdd, cyfeiriannu, nofio, lacrosse, athletau, sgïo, golff a bowlio i'r deillion.

Cefnogi'r perfformwyr gorau

Mae llwyddiant cenedlaethol mewn chwaraeon yn golygu bod mwy yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn gyffredinol, ac mae hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd mwy yn cyrraedd y brig yn y dyfodol. Mae'r Cynghorau Chwaraeon yn ceisio gwella siawns llwyddiant felly, trwy gynnig y cymorth angenrheidiol i'r perfformwyr gorau. Mae Cronfa Loteri UK Sport, a weinyddwyd gan Sport England cyn mis Hydref 2000, yn ceisio cefnogi chwaraewyr gorau'r Deyrnas Unedig er mwyn iddynt gyrraedd y lefel cystadlu uchaf.

Mae'r Rhaglen Perfformio Safon Byd yn cyfeirio arian y Loteri at athletwyr gorau'r wlad a chyrff llywodraethu chwaraeon er mwyn helpu i ariannu costau amrywiol cystadlu ar y lefel uchaf, sydd yn sylweddol yn aml. Dylai'r rhaglen hon greu enillwyr medalau heddiw ac yfory. Ers 1997, pan dargedwyd arian y Loteri ar gyfer chwaraeon perfformio safon uchel, mae dros £110 miliwn wedi helpu athletwyr gorau'r wlad. Yn Sydney yn y flwyddyn 2000, tanlinellodd perfformiad ein Cystadleuwyr Olympaidd, a enillodd 28 medal, a'n Cystadleuwyr Paralympaidd, a enillodd 131, yr effaith gadarnhaol y mae arian y Loteri yn ei chael ar berfformiad ein hathletwyr gorau.

Yn Lloegr, mae buddsoddiad cyfalaf o £120 miliwn wedi cael ei neilltuo ar gyfer yr English Institute of Sport newydd, fydd yn darparu'r cyfleusterau angenrheidiol i'n hathletwyr gorau i sicrhau eu bod yn cyrraedd y brig. Mae nifer o'r cyfleusterau hyn eisoes ar agor, megis Pwll newydd y Gymanwlad ym Manceinion a gafodd £22 miliwn o arian y Loteri. Mae eraill, megis y pwll 50 metr newydd ym Mhrifysgol Loughborough a'r cyfleusterau hwylio yng Nghlwb Hwylio Hayling Island, yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd.

Mae Rhaglen Athletwyr Talentog sportscotland yn cynnig cymorth ariannol i'r perfformwyr gorau ac athletwyr sydd â'r potensial i berfformio ar y lefel uchaf; hyd yn hyn, dyfarnwyd 2,308 o grantiau gwerth dros £9 miliwn i athletwyr

talentog. Yn gysylltiedig â hyn mae'r Rhaglen y Grwpiau Iau, sy'n cynnig cymorth i grwpiau o bobl ifanc ddawnus sy'n cymryd rhan mewn rhaglen gydlynol o hyfforddiant a digwyddiadau cystadleuol; mae'r Rhaglen wedi dyfarnu 80 grant hyd yn hyn sy'n werth dros £2.5 miliwn ac mae bron i 5,000 o bobl ifanc wedi elwa o'r grantiau hyd yn hyn. Ffurfiwyd y Scottish Institute of Sport yn hwyr ym 1999 a'r chwe sefydliad Ardal yn ddiweddar, gyda'r nod o sicrhau arfer gorau wrth gyd-drefnu amrywiaeth o raglenni datblygu gwasanaethau chwaraeon lefel uchel i athletwyr yn yr Alban.

Trwy Elite Cymru, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cefnogi dros 150 o athletwyr gorau Cymru. Cafodd hyn effaith arwyddocaol ar berfformiad Cymru yn y Gemau Paralympaidd yn Sydney gan bod 20% o'r tîm Prydeinig yn athletwyr Cymreig, a enillodd 25% o'r medalau. Cefnogwyd nifer o aelodau'r tîm Prydeinig, gan gynnwys Tanni Grey-Thompson a David Roberts gan Elite Cymru. Mae arian y Loteri trwy raglen Athletwyr Dawnus Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon wedi sicrhau bod yr adnoddau yn cyrraedd y bobl gywir ar yr adeg gywir, fel y dengys astudiaeth achos Janet Gray.

Elusennau

Nod y Gronfa Gymunedol, sef Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol yn flaenorol, yw helpu i ddiwallu anghenion y rhai mwyaf difreintiedig yn y gymdeithas, a gwella ansawdd bywyd yn y gymuned. Mae'r Gronfa Gymunedol yn cefnogi prosiectau sy'n helpu pobl i chwarae rhan lawn mewn gweithgareddau economaidd, cymdeithasol a chymunedol. Yn arbennig, mae'n cefnogi prosiectau sy'n atal neu sy'n lleihau unrhyw anfantais bellach.

- **Erbyn mis Medi 2001, roedd y Gronfa Gymunedol wedi dyfarnu dros 45,000 grant oedd yn werth dros £2 biliwn.**
- **Roedd grantiau bach gwerth £56 miliwn wedi'u dyfarnu i 19,000 o grwpiau cymunedol bach.**
- **Mae dros £525 miliwn wedi ariannu elusennau sy'n helpu pobl anabl, mae bron i £75 miliwn wedi cefnogi grwpiau sy'n delio â phlant dan anfantais ac mae dros £155 miliwn wedi'i roi i brosiectau sy'n gwella ansawdd bywyd yr henoed.**
- **Y Gronfa Gymunedol yw ariannwr unigol mwyaf adeiladau cymunedol: £100 miliwn dros y tair blynedd diwethaf.**
- **Ef hefyd yw ariannwr unigol mwyaf y sector gwirfoddol gwledig: £216 miliwn dros y tair blynedd diwethaf, sy'n gymaint â 25% o'i gyllideb dyfarnu grantiau.**

Er gwaethaf hyn, nid yw'r ffigurau yn adrodd yr holl stori. Wrth reswm, effeithiau eu prosiectau ar bobl yw'r wir effaith.

Y Gronfa Gymunedol
Ariannwyd gan y Loteri

Astudiaeth Achos

Ymddiriedolaeth Gymunedol Lynemouth

Cafodd Ymddiriedolaeth Gymunedol Lynemouth £76,696 dros ddwy flynedd. Pentref pwll glo yn Northumberland yw Lynemouth. Dirywiodd y pentref yn gynt ar ôl i'r pwll glo gau, ac roedd cau Lynemouth Inn yn symbol o hyn. Prynodd yr Ymddiriedolaeth y dafarn a'i thrawsnewid yn ganolfan gymunedol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r adeilad wedi adennill ei le yng nghanol y gymuned.

Effaith grantiau'r Gronfa Gymunedol ar bobl

Pobl, yn hytrach na phrosiectau cyfalaf, sy'n cael cymorth uniongyrchol gan 85% o'r arian a ddosberthir gan y Gronfa Gymunedol. Ond bydd yr adeiladau a ariennir gan y Gronfa Gymunedol yn helpu i hwyluso bywyd pobl hefyd, megis neuaddau pentref newydd er mwyn sicrhau bod gan gymunedau gwledig anghysbell well bywyd cymdeithasol, neu dalu i sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael mynediad i ganolfan gymunedol sy'n bodoli eisoes.

Mae llawer o'r rhai sy'n cael arian ymysg y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas: mae 45% o arian y Gronfa Gymunedol wedi mynd i bobl ar incwm isel ac mae 69% o'r grantiau wedi mynd i bobl sydd dan anfantais mewn rhyw ffordd oherwydd tlodi, pa un a yw hyn o ganlyniad i salwch hir dymor, heneiddio, diweithdra neu ddiffyg sgiliau. Mae'r Gronfa Gymunedol yn cefnogi prosiectau sy'n ceisio lleihau neu atal effaith tlodi. Er enghraifft, mae arian sylweddol wedi cefnogi plant, gofalwyr a phobl ddigartref, sy'n aml yn rhwym wrth dlodi oherwydd amgylchiadau eu bywydau. Mae'r 31% sy'n weddill o grantiau'r Gronfa Gymunedol yn diwallu agweddau eraill eu gweledigaeth: datblygu ansawdd bywyd yn y gymuned. Bydd y grantiau hyn, er enghraifft, yn talu am glwb te prynhawn i bobl hŷn neu ofal cyn ysgol sy'n galluogi mamau i gael gwaith i gynnal eu teuluoedd.

Mae'r Gronfa Gymunedol yn cefnogi grwpiau sy'n ei chael hi'n anodd cael arian o ffynonellau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sydd ag anableddau lluosog ac afiechydon prin. Maent yn cynnwys buddiolwyr a allai fod yn perthyn i adrannau amhoblogaidd o'r gymuned hefyd, megis plant sy'n cael eu diarddel o'r ysgol am ymddygiad anodd neu wrthgymdeithasol neu ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Oherwydd ei chyfrifoldeb i helpu'r rhai dan anfantais, mae'r Gronfa Gymunedol wedi cefnogi pobl y tu hwnt i'w cyfran o'r boblogaeth. Er enghraifft, mae pobl dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig yn 6.5% o boblogaeth y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd; mae'r Gronfa Gymunedol wedi gwario 10% o'i arian ar y grwpiau

hyn. Mae un o bob pump o'r boblogaeth yn anabl ar hyn o bryd; mae 45% o grantiau'r Gronfa Gymunedol dan ei brif raglenni grantiau wedi helpu pobl anabl, gan fod yn gymaint â £240 miliwn dros dair blynedd.

Helpu pobl i wneud gwahaniaeth

Gall pobl sy'n dymuno gwella'u cymunedau gael arian y Loteri gan y cynllun Awards for All gan ddosbarthwyr ar y cyd. Sefydlwyd nifer o grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau grant Awards for All ar gyfer prosiect bach; mae 45% o grantiau'r Gronfa Gymunedol wedi mynd i grwpiau sydd ag incwm o lai na £5,000 y flwyddyn. Ar ôl gweld bod hyn yn llwyddo, maent wedi tyfu a dychwelyd gan ofyn am fwy o arian er mwyn ffurfio cynlluniau mwy creadigol gyda'r nod o wella'u cymunedau, yn enwedig yr aelodau sydd dan yr anfantais fwyaf. Mae'r Gronfa Gymunedol wastad wedi ymrwymo i gyrraedd y rhannau hynny o'r gymdeithas nad yw arianwyr eraill yn eu cyrraedd.

Y Gronfa Gymunedol fel ffordd o ddatblygu'r sector gwirfoddol

Nod y Gronfa Gymunedol yw sicrhau gwelliannau cynaladwy mewn cymunedau. Un o'r ffyrdd y mae wedi gwneud hyn yn y gorffennol yw datblygu gallu'r sector gwirfoddol, trwy ddyfarnu grantiau i gymdeithasau sy'n cychwyn, trwy wella hyfforddiant a sgiliau yn y sector ac ariannu gwasanaethau gwybodaeth a chynghori.

Oherwydd bod yn rhaid i grwpiau eiriolaeth a chynghori fod yn annibynnol ar arian gwleidyddol, mae hwn yn faes lle mae gan y Gronfa Gymunedol swyddogaeth werthfawr dros ben; mae 20% o'r arian wedi'i gyfeirio at wella gwasanaethau cynghori a chwnsela. Er 1998, mae'r Gronfa Gymunedol wedi dyfarnu grantiau sy'n werth £61 miliwn er mwyn datblygu'r sector gwirfoddol.

Astudiaeth Achos

Emmaus yng Nglasgow, Yr Alban

Cafodd Emmaus yng Nglasgow grant o £12,000 dros gyfnod o flwyddyn. Mae hon yn elusen fach sydd wedi sefydlu busnes ailgylchu hunangynhaliol sy'n cael ei redeg gan gymuned o 20 unigolyn digartref. Maent yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb er mwyn penderfynu lle i sefydlu'r fenter fusnes gymunedol gyffrous hon. Trwy weithio ar y cyd er eu budd eu hunain a helpu eraill mewn angen, bydd pobl ddigartref yn cael y cyfle i symud ymlaen. Fel y dywedodd un yng Nglasgow: "Rydych yn dysgu am yr hyn y medrwch ei wneud. Medrwch helpu eraill i wireddu rhywbeth."

Treftadaeth

Mae grantiau Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cefnogi'r ymdrech i ddiogelu ystod eang ac unigryw o dreftadaeth amrywiol y Deyrnas Unedig. O adeiladau hanesyddol i barciau cyhoeddus, o lyfrgelloedd arbenigol i gofnodion hanesyddol llafar cymunedol, o'n hamgylchedd naturiol i gasgliadau amgueddfeydd, mae buddsoddiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cael effaith bwysig ar y ffordd yr ydym yn gofalu am ein hetifeddiaeth gyfunol, a sicrhau ei bod yn cael ei hagor i gynulleidfaoedd mwy fyth. Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynorthwyo pobl i werthfawrogi a mwynhau eu treftadaeth hefyd, gan olygu eu bod yn cyfrannu mwy a sicrhau ei dyfodol ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Cefnogwyd dros 7,500 o brosiectau, sy'n cynrychioli mentrau treftadaeth leol a gweithgareddau mewn trefi a phentrefi ledled y Deyrnas Unedig, ynghyd â phrosiectau cenedlaethol pwysig, na fyddai wedi bod yn bosibl heb gymorth y Loteri.

- **Erbyn mis Medi 2001, roedd Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi dyfarnu dros 7,500 o grantiau oedd yn werth dros £1.77 biliwn.**
- **Cefnogwyd dros 1,000 o brosiectau natur a chadwraeth sy'n amddiffyn 50,000 hectar ac sy'n cyflawni 72% o darged Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig ar gyfer adfer rhostiroedd.**
- **Gwnaethpwyd gwaith i adfer amgylchedd adeiledig hanesyddol ein trefi a'n dinasoedd, gan gynnwys dros 300 o barciau hanesyddol.**
- **Mae cannoedd o gynlluniau newydd a braf a ariannwyd gan y Loteri wedi adfywio'n hamgueddfeydd lleol a chenedlaethol, ein horielau a'n archifau hanesyddol.**
- **Mae dros 90% o'r grantiau a ddyfarnwyd wedi cael eu rhoi ar gyfer prosiectau llai sy'n werth dan £1 miliwn a 60% o'r grantiau ar gyfer prosiectau sy'n werth llai na £50,000, gan alluogi nifer o grantiau cymunedol lleol bach i gael eu darparu ledled y wlad.**

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Astudiaeth Achos

The American Air Museum, Duxford, Swydd Gaer-grawnt.

Yn sgîl grant o £6.5 miliwn mae'r Imperial War Museum wedi gallu cynnig safle i'w casgliad o awyrennau Americanaidd ym maes awyr Duxford. Mae'r arddangosfa newydd yn cynnwys amrywiaeth o awyrennau, o awyren ddwbl o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf i'r awyren jet fawr a ddefnyddir i fomio, y B-52, gan drawsnewid cyn orsaf awyrennau rhyfel yr Awyrlu yn amgueddfa awyrennau fwyaf yn Ewrop. Ar ôl agor yr arddangosfa, cododd nifer yr ymwelwyr â'r maes awyr gymaint â 30% ac ers hynny, mae'r cynnydd wedi bod yn sefydlog ar oddeutu 16%.

Astudiaeth Achos

Prosiect Treftadaeth Afonydd Tweed, Yr Alban

Mae cynlluniau ardal, megis Prosiect Treftadaeth Afonydd Tweed, yr Alban, wedi galluogi partneriaethau cyrff lleol i weithredu mewn ffordd arloesol dros eu treftadaeth. Trwy gydweithio mewn rhaglen gadwraeth a dehongli yn yr ardal hon o harddwch naturiol yn ardal Gororau'r Alban, mae'r bartneriaeth yn creu gwaith a chyfleoedd hamdden i bobl leol.

Cefnogi amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau

Mae'r cynlluniau amgueddfeydd mawr llwyddiannus sydd wedi agor ledled y wlad yn ddiweddar yn arwydd o ddadeni poblogaidd ar gyfer ein casgliadau cenedlaethol a rhanbarthol a gwelliant sylweddol yn y ffordd y maent yn cael eu cadw, eu dangos a'u dadansoddi ar ôl blynyddoedd o esgeulustra. Mae prosiectau Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi ennill gwobrau am ansawdd y gwaith dylunio, megis Caer Rhufeinig Segedunum yn ardal Tyne and Wear a Llyfrgell Ruskin yn Lancaster.

Yn genedlaethol, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cefnogi 10 amgueddfa ac oriel fwyaf poblogaidd y Deyrnas Unedig, o Amgueddfa Wyddoniaeth Llundain i Amgueddfa Frenhinol yr Alban yng Nghaeredin, ac mae dyfarnu grantiau i dros 1,200 o amgueddfeydd, orielau, llyfrgelloedd ac archifau ledled y wlad. Mae'r prosiectau hyn yn denu ymwelwyr newydd yn awr a byddant yn cynnig mwynhad i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r grant i Oriel Gelf Laing yn Newcastle, er enghraifft, wedi arwain at gynnydd o 74% yn nifer yr ymwelwyr a chynnydd o 55% mewn incwm. Yn yr un modd, mae Amgueddfa'r Alban, a gafodd arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, wedi creu 57 o swyddi newydd a sicrhau cynnydd o 87% yn nifer yr ymwelwyr yn ystod ei blwyddyn gyntaf. Yn Llyfrgell Linen Hall yn Belfast, sef llyfrgell gyfeirio ardderchog sy'n cynnwys casgliadau pwysig o astudiaethau Gwyddelig trawsgymunedol yn dyddio'n ôl i 1788, mae estyniad newydd trawiadol wedi creu 50% yn fwy o le i ddarllenwyr, casgliadau a digwyddiadau cyhoeddus. Mae sefydliadau o'r fath, yn ganolog i'n trefi a'n dinasoedd, ac yn gwneud cyfraniad hanfodol i ymdrechion adfywio a balchder dinesig.

Adfywio'n hamgylchedd hanesyddol

Trwy ddiogelu calonnau hanesyddol ein trefi a'n dinasoedd gellir cychwyn y broses adfywio yn ogystal â sicrhau manteision cymdeithasol ac addysgol eraill. Mae cynllun Menter Treftadaeth Treflun strategol Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a gyflenwir gan bartneriaethau lleol, yn bodloni blaenoriaethau adfywio lleol cyfoes, tra'n diogelu amgylcheddau trefol hanesyddol ar gyfer y dyfodol.

Hyd yn hyn, mae'r Fenter wedi bod o fudd i 194 o gymunedau ac mae dros £44 miliwn o grantiau wedi denu £90 miliwn arall o arian cyfatebol. Mae dros £128 miliwn arall wedi cael ei ddefnyddio i adfywio ac adnewyddu ein trefi glan môr, gan gynnwys £10 miliwn ar gyfer naw pier; efallai yr eiconau glan môr Prydeinig mwyaf atgofus.

Yn ogystal, mae llecynnau gwyrdd ein dinasoedd wedi cael eu hadfywio hefyd; mae'r Rhaglen Parciau Trefol eisoes wedi cyfrannu £178 miliwn tuag at angen a bennwyd gan waith ymchwil yn ddiweddar a noddwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, sy'n werth dros £1.3 biliwn. Mae Lister Park yn Bradford a Norfolk Park yn un o ardaloedd mwyaf dan anfantais yng nghanol dinas Sheffield, a arferai fod mewn cyflwr gwael, yn enghreifftiau o brosiectau adfer parciau sydd nid yn unig yn gwella'r dirwedd gorfforol ond sydd wedi bod yn hwb i adfywio cymdeithasol a threfol ehangach yn yr ardaloedd cyfagos.

Mae prosiectau unigol yn rhoi bywyd newydd llesol i gannodd o adeiladau a esgeuluswyd. Mae'r rhain yn amrywio o New College of further education, Nottingham, adeilad Lacemarket a arferai fod yn adfail, i Briordy Sant Ffransis yn y Gorbals, Glasgow, sydd bellach yn llety i'r henoed. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys y gyn Eglwys Fethodistaidd yn Carlisle Circus yn Belfast, sydd bellach yn ganolfan weithredol ar gyfer cymuned Indiaidd y ddinas, yn ogystal â Chanolfan Gymunedol Tabernacle yn Hwlffordd, lle atgyweiriwyd neuadd eglwys o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'i throi'n gyfleuster cymunedol i'r hen a'r ifanc, a chynnig adnodd pwysig ar gyfer grwpiau gwirfoddol bach yn ardal Sir Benfro. Mae adnewyddu pob un o'r adeiladau hyn yn symbol o fuddsoddiad lleol, hunaniaeth a bywyd newydd.

Diogelu'n hamgylchedd naturiol

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn unigryw ymysg cyrff treftadaeth oherwydd ei bod yn berthnasol i bob sector ar draws yr amgylchedd hanesyddol. Mae'n tirweddau naturiol a'n tirweddau a gynlluniwyd yn etifeddiaeth bwysig, y mae'r Gronfa yn helpu i'w diogelu a'u cyflwyno i'r gynulleidfa ehangaf. Mae gwaith gwerthuso annibynnol wedi dangos bod arian y Loteri nid yn unig wedi ymestyn graddfa'r gwaith cadwraeth, gan fod o fudd o ran bio-amrywiaeth, ond yn ogystal, mae wedi arwain at ddull gweithredu mwy integredig, gan arwain at fanteision cyhoeddus ehangach o ran gwell mynediad, addysg, cyfraniad cymunedol a gwirfoddoli.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynnig cymorth i gyrff cadwraeth natur lleol a chenedlaethol hefyd i'w helpu i brynu a rheoli'r dirwedd i amddiffyn adar, anifeiliaid a phryfed sydd mewn perygl a chynnig gwell mynediad i gefn gwlad trwy drwsio llwybrau yn ardal y Llynnoedd, Eryri ac Ucheldiroedd yr Alban.

Cofio'n gorffennol diwydiannol

Buddsoddwyd dros £125 miliwn yn sectorau diwydiannol, morol a thrafnidiaeth ein treftadaeth nad ydynt yn medru manteisio ryw lawer ar ffynonellau arian cyhoeddus eraill. Mae prosiectau atgyweirio, pa un a ydynt yn ymwneud â llongau, rheilffyrdd stêm neu hen fysiau, yn denu llawer o wirfoddolwyr, sy'n trosglwyddo sgiliau a safbwyntiau sy'n marw. Er enghraifft, yng Ngogledd Iwerddon, mae cyfres o grantiau a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i Reilffordd Downpatrick ac Ardglass wedi codi nifer yr ymwelwyr yn sylweddol i'r rheilffordd stêm hanesyddol hon, un o'r atyniadau pwysicaf i ymwelwyr yn yr ardal. Mae arian Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn galluogi cymunedau i ailymweld â'u gorffennol diwydiannol mewn ffordd lythrennol, trwy gael profiad uniongyrchol ohono. Bydd arian ar gyfer Amgueddfa Pwll Mawr, Blaenafon yn sicrhau parhad i'r mynediad i'r gwaith dan y ddaear, gan greu adnodd addysgol pwysig a chyswllt â rhan bwysig o hunaniaeth y genedl.

Rhannu'n gorffennol diwylliannol

Mae cofnodi'n hanes llafar yn chwarae rhan fwyfwy pwysig wrth ddogfennu a rhannu'n gorffennol diwylliannol ac wrth gadarnhau teimlad o hunaniaeth. Yn rhannol er mwyn ymateb i ddiddordeb a welwyd o ganlyniad i Flwyddyn y Mileniwm, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi neilltuo dros £1 miliwn i amrywiaeth o brosiectau. Mae'r rhain yn amrywio o grant £89,000 i Refugee Action er mwyn galluogi grŵp o ffoaduriaid o Fietnam i gofnodi eu profiadau cyfunol o ailadeiladu eu bywydau yn Llundain, i Archif Hanes Llafar East Midlands er mwyn rhoi 30 mlynedd o hanes llafar unigryw'r rhanbarth ar CD-ROM.

Treftadaeth amrywiol

Mae amrywiaeth y cymorth grant gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri eisoes wedi ehangu'r syniad o dreftadaeth yn sylweddol i gynnwys asedau cymunedol sy'n llai diriaethol. Mae'r rhain yn cynnwys traddodiadau diwylliannol, sgiliau a chrefftau, ieithoedd, ynghyd â gweithgareddau sy'n datblygu cyswllt pobl â hanes neu dreftadaeth ac yn gwneud yr arian yn fwyfwy cynhwysol a pherthnasol i bob cymuned. Bydd archwilio'r meysydd hyn yn galluogi pob cymuned yn ein cymdeithas fwyfwy amrywiol i ddatblygu ei threftadaeth a'i hasedau ei hun mewn ffordd unigryw.

Mileniwm

Sefydlwyd Comisiwn y Mileniwm i gynorthwyo cymunedau i gofio terfyn yr ail fileniwm a dathlu cychwyn y trydydd. Mae'r Comisiwn wedi defnyddio arian y Loteri i annog prosiectau ledled Prydain a gefnogir gan y cyhoedd, ac a fydd yn gofadeiliau parhaus i gyflawniadau a dyheadau'r bobl sy'n byw yn y wlad. Mae'r mentrau a gefnogir yn rhai a gynigiwyd gan gymunedau ac yn cynrychioli'r

buddsoddiad unigol mwyaf a wnaed gan gorff ac eithrio'r llywodraeth yn yr isadeiledd cymunedol a chymdeithasol ledled y Deyrnas Unedig.

- **Erbyn mis Medi 2001, roedd Comisiwn y Mileniwm wedi dyfarnu dros 2,200 o grantiau gwerth bron i £2 biliwn.**
- **Cefnogwyd 550 o neuaddau pentref, 50 o brosiectau adfywio canol dinasoedd a 100 o atyniadau newydd i ymwelwyr.**
- **Ariannwyd 600 o eglwysi gan dalu am glychau, goleuadau a chyfleusterau newydd ar eu cyfer.**
- **Dyfarnwyd 18,000 o Wobrau'r Mileniwm i unigolion.**
- **Ariannwyd dros 1,400 o ddigwyddiadau'n ymwneud â Gŵyl y Mileniwm.**

Rhennir gwaith y Comisiwn rhwng y Rhaglen prosiectau Cyfalaf, Cynllun Dyfarniadau'r Mileniwm, Gŵyl y Mileniwm a Phrofiad y Mileniwm.

Comisiwn y Mileniwm
Ariannwyd gan y Loteri

Astudiaeth Achos

Prosiect Eden, Cernyw

Rhoddwyd grant o £43 miliwn i Brosiect Eden, Cernyw. Y mae dau fïom anferth yn sefyll ar 15 erw o dir, sef maint 35 cae chwarae pêl droed, ac yn gartref i filoedd o blanhigion o bob cwr o'r byd, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r amgylchedd. Ers iddo agor yn llawn ym mis Mawrth 2001 mae dros filiwn o bobl wedi ymweld â'r prosiect.

Prosiectau cyfalaf

Mae'r Comisiwn wedi dyfarnu grantiau i 27 prosiect cyfalaf mawr ledled y Deyrnas Unedig. Mae wedi cefnogi dros 170 o gynlluniau cyfalaf unigryw llai hefyd sydd ag effaith leol neu ranbarthol, a 'phrosiectau ymbarél': ceisiadau sy'n delio â grwpiau neu gynlluniau sydd â thema gyffredin, yn aml yn cynnwys prosiectau a fyddai'n rhy fach i wneud cais ar eu pen eu hunain.

Nododd y Comisiwn dri maen prawf strategol ar gyfer ei grantiau i brosiectau cyfalaf. Penderfynwyd cefnogi prosiectau o bob maint, ac mae'r Comisiwn wedi gwneud penderfyniad bwriadol i ariannu ystod o brosiectau o arwyddocâd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Yn ogystal, roedd y Comisiwn yn benderfynol o sicrhau bod y prosiectau wedi'u dosbarthu ar draws y wlad, tra'n dyfarnu grantiau yn ôl haeddiant ac ansawdd prosiectau unigol. Y maen prawf terfynol oedd mynediad: rhaid i bob sector o'r gymuned allu manteisio ar brosiectau a ariennir gan y Comisiwn.

Hyd yn hyn, mae'r Comisiwn wedi dyfarnu i 199 prosiect ar dros 3,000 o safleoedd gan ddosbarthu hyd at £1,280 mewn grantiau. Mae'r portffolio hwn o brosiectau cyfalaf yn hynod o amrywiol. Maent yn amrywio o'r Tate Modern yn Bankside, Llundain sydd wedi cael canmoliaeth eang a Moss Side Youth Powerhouse sy'n cynnig cyfleusterau i bobl ifanc ym Manceinion, i Millennium Greens a fydd yn creu hyd at 250 o lecynnau gwyrdd newydd i gymunedau mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae prosiectau eraill yn cynnwys y Rhwydwaith Feicio Genedlaethol sy'n 5,000 milltir o hyd a Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd lle cynhaliwyd gêm derfynol Cwpan Rygbi'r Byd ym 1999. Mae'r cyhoedd eisoes yn medru manteisio ar 138 o brosiectau a bydd y ffigwr hon yn cynyddu'n sylweddol erbyn diwedd 2001.

Dengys arwyddion cynnar bod prosiectau sydd wedi agor yn llwyddo gyda nifer cyfartalog yr ymwelwyr 30% yn uwch na'r targed. Mae'r Comisiwn yn cydnabod, fodd bynnag, bod angen gwneud llawer mwy o waith er mwyn sicrhau eu dilysrwydd hir dymor ac mae'n trafod â chyrff eraill ynghylch sefydlu cronfa i adnewyddu'r canolfannau gwyddoniaeth a gefnogwyd ganddo.

Dyfarniadau'r Mileniwm

Mae'r Comisiwn yn cynnig grantiau i unigolion hefyd i'w galluogi i wireddu eu dyheadau personol tra'n dod â budd i'r gymuned y maent yn byw ynddi. Disgrifiwyd y Gwobrau fel cymorth i 'alluogi pobl gyffredin i wneud pethau anghyffredin'. Er mwyn sicrhau bod cynlluniau Gwobrau yn diwallu anghenion a nodwyd yn gywir a'u bod yn cael eu rheoli gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol, mae'r Comisiwn yn dyfarnu grantiau i sefydliadau sy'n bodoli eisoes, a elwir yn Bartneriaid gwobrau, sydd wedyn yn argymell grantiau ar gyfer unigolion. Mae Partneriaid Gwobrau yn cynnwys MIND, Age Concern a Raleigh International.

Mae'r Comisiwn bellach wedi cynnig £100 miliwn i 100 o Bartneriaid Gwobrau sy'n rhedeg 107 o gynlluniau a fydd yn y pen draw yn dod â budd i 32,000 o unigolion; dyfarnwyd 18,000 Gwobr eisoes. Nid oes enghraifft nodweddiadol o rywun sy'n ennill Gwobr: mae'r ieuengaf yn 7 oed ac mae'r hynaf yn 96 oed. Buddsoddir £100 miliwn arall mewn cronfa gwaddoliad parhaol er mwyn sicrhau y bydd grantiau i unigolion yn parhau yn y dyfodol.

Sefydlwyd Cymrodoriaeth hefyd i gydnabod a dathlu cyflawniadau unigolion sydd wedi derbyn gwobrau ac sydd wedi cwblhau eu Gwobrau ac er mwyn annog pobl i rwydweithio a rhannu syniadau a phrofiadau. Mae dros 7,800 o aelodau eisoes sy'n gallu cysylltu â'i gilydd trwy gyfrwng y wefan 'starpeople' newydd sef www.starpeople.org.uk, sy'n rhoi'r cyfle iddynt sefydlu eu gwefannau eu hunain ynglŷn â'u prosiectau.

Gŵyl y Mileniwm

Gwnaethpwyd cyfraniad o £25.5 miliwn gan y Comisiwn i gronfa'r Ŵyl o oddeutu £100 miliwn, a sefydlwyd gan ddosbarthwyr Loteri'r Deyrnas Unedig. Hon yw'r fenter fwyaf erioed a gynhaliwyd gan ddosbarthwyr traws-Loteri.

Rhannwyd y Gwobrau rhwng grantiau mwy o dros £5,000 a grantiau llai o rhwng £500 a £5,000. Mae'r Comisiwn wedi ariannu bron i 400 o wobrau mwy sy'n werth cyfanswm o £20.5 miliwn a dros 1,000 o'r grantiau llai sy'n werth £5 miliwn.

Yn ogystal, darparodd y Comisiwn £5 miliwn i ariannu dathliadau a gynhaliwyd yn ystod Penwythnos Cyntaf y flwyddyn 2000 mewn 22 o drefi a dinasoedd. Darparwyd £6.2 miliwn pellach i helpu 32 o drefi a dinasoedd i ddathlu Noswyl Calan 2000.

Mynychodd neu cyfrannodd dros 20 miliwn o bobl at ddigwyddiadau'r Ŵyl a ariannwyd gan y Comisiwn.

Profiad y Mileniwm

Roedd Profiad y Mileniwm yn cynnwys y Dôm yn Greenwich a Rhaglen Genedlaethol a gyd-drefnwyd gan New Millennium Experience Company (NMEC). Cyfraniad y Comisiwn i'r rhain oedd £630 miliwn.

Ni lwyddodd Profiad y Mileniwm yn Greenwich gymaint â'r disgwyl ac roedd y ffigurau ymwelwyr a ragwelwyd yn wreiddiol yn rhy uchelgeisiol. Gwnaeth dros 6.5 miliwn o bobl, fodd bynnag, benderfynu ymweld ac roedd ffigurau bodlonrwydd ymweliadau â'r Dôm yn uchel iawn. Mae'r Dôm wedi gwneud cyfraniad enfawr i'r gwaith o adfywio Penrhyn Greenwich hefyd.

Roedd y Rhaglen o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cynnwys ysgolion, grwpiau gwirfoddol, eglwysi, awdurdodau lleol a busnesau. Cysylltwyd y mentrau hyn â thema'r Profiad bod y mileniwm newydd yn 'amser i wneud gwahaniaeth'.

Astudiaeth achos

Odyssey, Belfast

Rhoddwyd £45 miliwn i Odyssey, Belfast, i ddarparu cymysgedd o weithgareddau addysgol, adloniant a chwaraeon, ac mae wedi helpu i chwarae rhan bwysig yn adfywiad Belfast. Mae'r Arena yn Odyssey, sef y mwyaf yn Iwerddon â 10,000 o seddi, yn darparu lleoliad newydd ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a gweithgareddau chwaraeon rhyngwladol, gyda'r ganolfan wyddoniaeth newydd, W5, yn ganolfan ddarganfod ryngweithiol bwrpasol gyntaf Gogledd Iwerddon.

Addysg, Iechyd A'r Amgylchedd

Sefydlwyd y Gronfa Cyfleoedd Newydd yn sgîl Deddf Loteri 1998 i ariannu prosiectau cynaladwy ym meysydd addysg, iechyd a'r amgylchedd. Mae'r Gronfa'n ymgynghori'n eang, ac yn datblygu mentrau ar y cyd gydag ystod eang o fudd-ddeiliaid allweddol, gan roi ystyriaeth lawn i'r anghenion a'r amgylchiadau gwahanol yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Mae'r mentrau'n arloesol, wedi'u targedu'n ofalus, i'w cwblhau o fewn amser penodol, ac yn ychwanegol at y rhaglenni craidd a ariennir gan drethi. Wrth i fentrau gael eu cwblhau, mae mentrau newydd yn cymryd eu lle. Mae hyn yn sicrhau bod arian y Loteri yn cael ei ddefnyddio er budd pawb mewn ffyrdd sy'n galw ar gefnogaeth y wlad gyfan.

- **Erbyn mis Medi 2001, roedd y Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi clustnodi dros £980 miliwn i brosiectau ledled y Deyrnas Unedig**

Nod y Gronfa Cyfleoedd Newydd yw cefnogi prosiectau sy'n:

- **gwella ansawdd bywyd pobl ledled y Deyrnas Unedig**
- **ymateb i anghenion y bobl hynny sydd fwyaf difreintiedig mewn cymdeithas**
- **annog y gymuned i gymryd rhan**
- **cyd-fynd â strategaethau a rhaglenni lleol a chenedlaethol perthnasol.**

Cronfa Cyfleoedd Newydd
ARIENNIR GAN Y LOTERI

Astudiaeth Achos

Mary Clement a'r cynghorydd lleol David Ford

Mary Clement a'r cynghorydd lleol David Ford yn y Ganolfan Gofal Teulu yn ystad Rathenraw, Antrim. Cafodd y ganolfan grant o £58,005 dan raglen grantiau'r Gronfa, Mynediad y Gymuned i Ddysgu gydol Oes, i ymestyn yr hyfforddiant TGCh ac uwchraddio cyfrifiaduron i gael mynediad i'r rhyngrwyd.

Astudiaeth Achos

Cymdeithas Valley House yn Coventry

Cafodd Cymdeithas Valley House yn Coventry grant o £41,075 ym mis Chwefror 2001. Bydd hyn yn eu galluogi i barhau i ddarparu cyfleoedd dysgu i bobl ddifreintiedig, gan gynnwys rhieni unigol, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl ag anableddau corfforol a phobl o leiafrifoedd croenddu ac ethnig.

Mae mentrau presennol y Gronfa, sy'n cael eu nodi mewn cyfarwyddiadau polisi a gyhoeddir gan y Llywodraeth, yn cynnwys:

- **canolfannau byw'n iach: £300 miliwn**
- **gweithgareddau y tu allan i'r ysgol, addysg: £205 miliwn, (gan gynnwys £25 miliwn i ysgolion haf) a gofal plant: £220 miliwn**
- **hyfforddiant TGCh ar gyfer athrawon a llyfrgellwyr ysgol, hyfforddiant TGCh ar gyfer llyfrgellwyr a digidoli deunyddiau dysgu: £300 miliwn**
- **atal, canfod a thrin cancr, a gofal: £150 miliwn**
- **mynediad i'r gymuned i ddysgu gydol oes: £200 miliwn**
- **llecynnau gwyrdd a chymunedau cynaladwy: £125 miliwn**

Ym mis Ebrill 2001, cyhoeddodd y Llywodraeth gyfarwyddiadau polisi pellach yn rhoi saith menter arall i'r Gronfa, gwerth £1.5 biliwn dros gyfnod o dair i bedair blynedd. Yn dilyn ymgynghori a datblygu, bydd y Gronfa yn lansio'r rhan fwyaf o'r rhaglenni newydd hyn erbyn mis Mawrth 2002:

- **addysg gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion: £750.75 miliwn**
- **cyfleoedd a gweithgareddau i bobl ifanc: £44.25 miliwn**
- **lleihau baich afiechyd coronaidd y galon, strôc a chancr: £213.5 miliwn**
- **gofal lliniarol: £84 miliwn**
- **gofal plant: £198.5 miliwn**
- **trawsnewid cymunedau: £159 miliwn**
- **cynlluniau grant graddfa fechan: £60 miliwn**

Cynnydd

Mae pob un o'r 13 o raglenni mentrau cyfredol y Gronfa bellach yn mynd rhagddynt yn dda, ac mewn rhai achosion, er enghraifft, Byw gyda Chancr, mae'r arian wedi cael ei glustnodi'n llawn. Mae grantiau'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cyrraedd pob rhan o'r Deyrnas Unedig, gan alluogi prosiectau ehangu neu sefydlu gweithgareddau newydd a chyffrous mewn cymunedau lleol.

Er enghraifft, nod y fenter £300 miliwn, Canolfan Byw'n Iach, yw ariannu cynlluniau sy'n darparu ystod o wasanaethau sydd wedi'u cynllunio i wella iechyd grwpiau difreintiedig. Mae'r Gronfa wedi dyfarnu dros 80 o grantiau, gan wneud cyfanswm o bron i £63 miliwn. Mae'r prosiectau hyn eisoes yn gwneud gwahaniaeth i wasanaethau sydd ar gael trwy gynnig ffyrdd newydd o ansawdd uchel o gynnal iechyd, gan dargedu'n benodol gymunedau difreintiedig a chymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu cystal.

O dan y rhaglen £220 miliwn ar gyfer dysgu y tu allan i oriau ysgol, mae'r Gronfa wedi dyfarnu dros 880 o grantiau, gan wneud cyfanswm o £156 miliwn, sydd wedi bod o fudd i ddisgyblion o 155 o ysgolion. Nod y rhaglen hon yw annog a chymell disgyblion, meithrin eu hunan-barch a hyrwyddo cyflawniad yn yr ysgol.

Dros y misoedd nesaf, bydd cymunedau'n dechrau cymryd rhan mewn gweithgareddau menter amgylcheddol gyntaf y Gronfa, sef £125 miliwn ar gyfer llecynnau gwyrdd a chymunedau cynaladwy. Bydd y grantiau hyn yn cael eu cynllunio i gynorthwyo cymunedau i ddeall a gwella eu hamgylchedd fyw a naturiol, ynghyd â gofalu amdani. Bydd y fenter hon hefyd yn cefnogi'r Scottish Land Fund, sy'n ariannu datblygiad cynaladwy ar draws cefn gwlad yr Alban.

Mae grantiau o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn cyffwrdd bywydau pobl mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Mae'r Gronfa wedi darparu dros 422 o eitemau peiriannau canser ar gyfer ysbytai'r GIG. O ganlyniad, mae miloedd o bobl ar draws y wlad yn elwa'n uniongyrchol o sgrinio, diagnosis a thriniaeth well. Mae llawer mwy o bobl bellach yn cael cyfle i wella'u hiechyd a'u lles trwy gymryd rhan yn eu rhaglenni lleol, byw yn iach.

Mae bron i 200,000 o athrawon ar draws y Deyrnas Unedig wedi elwa o'r hyfforddiant Gwybodaeth, Cyfathrebu a Thechnoleg, ac maent bellach yn cymhwyso'r medrau hyn yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi dyfarnu dros 730 o grantiau trwy ei rhaglen Mynediad y Gymuned i Ddysgu Gydol Oes. Mae'r Ethnic Business Development yn Lewisham, Llundain, yn un cynllun o'r fath, ac mae wedi cael grant o bron i £74,000 o'r Gronfa. Mae'r cynllun hwn yn cynnig ystod o weithgareddau gan gynnwys gwybodaeth, gweithgareddau dysgu, adnoddau cyflogaeth a datblygu menter i rieni unigol, pobl ddi-waith, a grwpiau eraill nad ydynt yn gallu elwa o'r cyfleoedd hyfforddi.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn awyddus i adeiladu ar gyflawniadau ei rhaglenni, ac i ddysgu mwy am y ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant. Mae eisoes wedi comisiynu arfarniadau annibynnol ar gyfer sawl rhaglen. Mae'r canfyddiadau cynnar o'r rhaglenni dysgu a gofal plant y tu allan i oriau ysgol, yn cadarnhau bod y cynlluniau hyn yn boblogaidd. Yn arbennig, mae 50% o rieni â phlant sy'n defnyddio lleoedd a ariennir gan y cynllun gofal plant y tu allan i oriau ysgol, wedi gallu mynd i weithio neu astudio. Bydd canfyddiadau yn y dyfodol yn asesu effaith y rhaglenni'n fanylach, ac yn darparu gwersi gwerthfawr ar gyfer prosiectau a chymunedau.

3. Effaith Gymdeithasol ac Economaidd

Brwydro yn erbyn amddifadedd a thlodi

Mae rhai ardaloedd o'r Deyrnas Unedig yn dal i ddioddef o amddifadedd a thlodi, ac mae bywydau pobl yn cael eu difetha gan ddiweithdra, lefelau troseddu uchel, cartrefi mewn cyflwr gwael, a darpariaeth wael o ran iechyd ac addysg. Mae'r broblem yn effeithio'n ddifrifol ar bawb: mae'n gwthio'r lefel gwariant cyhoeddus i fyny; mae'n tanseilio cydlyniad cymdeithasol ac yn rhwystro unrhyw ffyniant. Ni all newidiadau ddigwydd yn ddigon buan mewn cymuned ddifreintiedig. Mae dosbarthwyr y loteri yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau amddifadedd a thlodi drwy ariannu prosiectau mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf. Ers cychwyn y Loteri, mae 41% o'r grantiau yn Lloegr wedi mynd i'r 50 o awdurdodau lleol mwyaf amddifad.

Mae Sport England wedi sefydlu Sport Action Zones, sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag amddifadedd mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf amddifad yn gymdeithasol ac yn economaidd, trwy roi'r buddion chwaraeon gorau i'r cymunedau hyn. I gychwyn, mae Sport England wedi clustnodi 12 parth, ac mae'r rhan fwyaf o'r Rheolwyr Parth bellach wedi cychwyn ar eu swyddi. Bydd 18 parth pellach yn cael eu clustnodi yn 2002. Mae gan sportscotland hawl i fynd y tu hwnt i'r lefel ariannu partneriaeth arferol o 50% ar gyfer prosiectau mewn ardaloedd difreintiedig, a dyna a wnaeth ar gyfer 49 o'r grantiau a ddyfarnwyd drwy'r rhaglen Gyfalaf; hyd yn hyn, dyfarnwyd 12 o grantiau i brynu cyfleusterau mewn ardaloedd difreintiedig drwy'r Rhaglen Cyfleusterau Chwaraeon. Hefyd, mae sportscotland yn mynd i gychwyn Rhaglen Bartneriaeth Cynhwysiad Cymdeithasol ym mis Ionawr 2002, fydd yn canolbwyntio ar adeiladu doniau mewn cymunedau difreintiedig. Bydd grantiau'n cael eu rhoi i sefydliadau sy'n gweithio o fewn meysydd y Bartneriaeth Cynhwysiad Cymdeithasol i ddarparu datblygiadau chwaraeon a chymunedol cynaladwy. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn defnyddio £8 miliwn o arian y Loteri i helpu i ddatblygu syniadau ac atebion arloesol ac ymarferol mewn ardaloedd amddifadiad lluosog, megis Cwm Rhymni, Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf. Mae ffigyrau diweddaraf Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon yn dangos bod un o bob dau grant a ddyfernir drwy ei raglenni cyfalaf, yn cefnogi prosiectau mewn ardaloedd difreintiedig yng Ngogledd Iwerddon.

Mae Cyngor y Celfyddydau yn argyhoeddedig y gall y celfyddydau chwarae rôl bwysig wrth fynd i'r afael ag amddifadedd ac eithrio cymdeithasol. Mae'r 99 bwrdeistref fwyaf difreintiedig yn Lloegr wedi derbyn dros £875 miliwn oddi wrth Gyngor Celfyddydau Lloegr. Mae hyn yn 59% o gyfanswm yr arian Loteri a ddosbarthwyd. Dyfarnwyd dros 60% o grantiau Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol, llawer ohonynt yn y 100 ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r Scottish Arts Council wedi cefnogi prosiect Royston Road, a welodd arian cyfalaf yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo gwaith y gymuned leol gydag artistiaid i drawsnewid dau lecyn cyhoeddus yn un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Glasgow. Defnyddiodd yr Hills Trust Parents' Group yn ardal Govan, Glasgow, arian y loteri i adeiladu canolfan

bwrpasol yn cyfuno meysydd perfformio a'r celfyddydau, ystafell dechnegol a stiwdio.

Mae'r Gronfa Gymunedol yn cefnogi pobl mewn ardaloedd difreintiedig yn sgîl newid economaidd neu gymdeithasol, p'un a ydynt yn ardaloedd gwledig neu drefol. At ei gilydd, mae 45% o arian y Gronfa Gymunedol wedi mynd i bobl ar incymau isel ac mae 69% o'u grantiau wedi mynd i bobl sydd dan ryw fath o anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn disgwyl i brosiectau ddangos sut y byddant yn cyrraedd cymunedau difreintiedig, a sut byddant o fudd iddynt. I sicrhau y bydd yr arian yn mynd i'r lleoedd lle mae ei angen fwyaf, mae'r Gronfa yn defnyddio dull targedu hyblyg ar sail tystiolaeth dda. Er enghraifft, o fewn ei menter ddysgu y tu allan i oriau ysgol, nod y Gronfa yw dyfarnu 50% o'r grantiau, yn ôl eu gwerth, i'r 15% o ysgolion cynradd mwyaf difreintiedig, a'r 25% o ysgolion uwchradd mwyaf difreintiedig. Mae ymrwymiad y Gronfa i gyrraedd y rhai dan yr anfantais fwyaf yn cael ei adlewyrchu yn y modd y dosberthir y grantiau. Yn Lloegr, mae bron i 80% o'r canolfannau dysgu a ariennir, yn y 2,000 ward sydd fwyaf difreintiedig, tra bod 36 o'r canolfannau byw'n iach a ariennir, o fewn parthau Health Action.

Astudiaeth Achos

Ardal y Gurnos ym Merthyr Tudful, Cymru

Mae ardal y Gurnos ym Merthyr Tudful, Cymru, yn bedwaredd ym mynegai Cymru o ardaloedd Amddifadiad Lluosog. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi dod â grwpiau gwahanol ac anghyfartal yn yr ardal ynghyd, gyda'r bwriad o fodloni'r angen lleol o ran adloniant, agor cyfleusterau sydd yno'n barod at ddefnydd lleol, ehangu'r ystod chwaraeon yn yr ardal a chefnogi datblygiad clybiau presennol. Mae canlyniadau'r gwaith hwn eisoes yn cynnwys dau brosiect cyfalaf mawr a chyflogi gweithiwr datblygu rhan-amser.

Cynorthwyo grwpiau difreintiedig

Mae arian y Loteri wedi gwneud llawer iawn i gefnogi grwpiau sydd yn ddifreintiedig yn draddodiadol, sef y rheiny sydd yn wynebu'r perygl mwyaf o gael eu heithrio o gymdeithas. Mae angen cymorth ar y grwpiau hyn i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r buddion gwych a ddaw yn sgîl arian y Loteri.

Mae Cronfa Ddatblygu Cymunedau Gweithgar Sport England wedi'i chynllunio i gynyddu'r niferoedd sydd yn cymryd rhan mewn chwaraeon ymysg grwpiau blaenoriaeth, yn arbennig menywod a merched, pobl ag anableddau, pobl o leiafrifoedd ethnig, grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E, a phobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig anghysbell.

Bydd Rhaglen Gyfalaf newydd Cyngor Celfyddydau Lloegr yn darparu £176 miliwn dros y chwe blynedd nesaf. Penderfynwyd targedu'r Rhaglen i feysydd angen penodol, gan gynnwys sefydliadau Croenddu, Asiaidd a Tsieineaidd (£29 miliwn); buddsoddi mewn rhannau o Loegr lle mae'r ddarpariaeth o ran y celfyddydau wedi bod yn isel yn draddodiadol, gan gynnwys ardaloedd difreintiedig iawn; a phrosiectau sy'n cynyddu niferoedd y gynulleidfa sy'n cael mynediad i'r celfyddydau, ac yn cymryd rhan ynddynt. Mae arian y Loteri oddi wrth Gyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon wedi cefnogi cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae grantiau megis y rheiny i Feile an Phobáil yng ngorllewin Belfast, y Field Marshal Montgomery Pipe Band, Canolfan Ti Chulainn yn ne Armagh, y Prison Arts Foundation a Ballynafeigh Community Development yn Belfast, wedi cael effaith ymhell y tu hwnt i'r cyfanswm buddsoddiad o £525,000.

Mae llawer o gynlluniau cyfalaf Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi ysgogi mentrau newydd, gan ddenu grwpiau o bobl difreintiedig, a grwpiau oedd heb gynrychiolaeth ddigonol o'r blaen. Yn y Dulwich Picture Gallery yn Ne Llundain a'r Dorset County Museum, mae prosiectau gweithgarwch arloesol yn denu cynulleidfaoedd newydd, gan gynnwys pobl sydd wedi bod ar yr ymylon yn draddodiadol megis y rheiny sy'n ddigartref neu grwpiau troseddwyr ifainc. Yn y dinasoedd, mae prosiectau fel yr Hackney Building Exploratory yn galluogi pobl o bob oed i gynyddu eu dealltwriaeth o'u hamgylchedd hanesyddol lleol, tra bod prosiect y Porth sy'n cael ei redeg gan Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru, wedi caniatáu i Swyddog Mynediad gael ei benodi i helpu agor gerddi hanesyddol Cymru i gynulleidfa mor eang â phosibl, gan gynnwys pob ag anableddau a'u gofalwyr, a'r rheiny o gymunedau difreintiedig mewn dinasoedd all ei chael hi'n anodd ymweld â'r gerddi.

Roedd Comisiwn y Mileniwm yn awyddus i weld pob diwylliant yn cael eu hadlewyrchu yn ei raglenni. Mae bron i 15% o'r rhai sy'n cael Grantiau o leiafrifoedd ethnig. Roedd dros 20% o'r Gwyliau mawr ac 11% o'r Gwyliau llai yn rai aml-ddiwylliant neu wedi'u targedu at gymuned ethnig leiafrifol benodol. Defnyddiodd y Comisiwn ei bwerau gweithredu i wahodd ceisiadau am

brosiectau cyfalaf oedd yn adlewyrchu nodau a dyheadau grwpiau o gymunedau croenddu a chymunedau lleiafrifoedd ethnig ym 1999 a 2000, ar ôl gweld nad oedd gan y grwpiau hyn ddigon o gynrychiolaeth mewn rowndiau ariannu cynharach. Mae prosiectau sy'n adlewyrchu nodau a dyheadau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys y Stephen Lawrence Techno Centre yn Llundain a'r Peepul Centre yng Nghaerlŷr, bellach yn cynrychioli 3.5% o'r holl ariannu i brosiectau cyfalaf.

Mae dosbarthwyr y Loteri yn awyddus i sicrhau bod pobl ag anableddau nid yn unig yn gallu cael mynediad i gyfleusterau, ond eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau hefyd. Mae Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi ariannu gwelliannau cyfalaf gwerth dros £150 miliwn ar gyfer mynediad i bobl anabl i leoliadau celfyddydol. Targedir tua 25% o grantiau World Class Performance Programme UK Sport at athletwyr ag anableddau, gan ddarparu cefnogaeth iddynt o ran costau hyfforddi a chystadlu, ac mewn llawer achos, darparu mynediad i gefnogaeth feddygol arbenigol a chefnogaeth dull o fyw. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cyflwyno Chwaraeon Anabledd Cymru, i dargedu arian y Loteri'n benodol i greu cyfleoedd yn lleol i bobl ag anableddau. Bwriedir bod swyddogion datblygu rhan-amser neu lawn-amser yn eu swyddi mewn 20 allan o'r 22 awdurdod lleol.

Mae'r gwaith adnewyddu a wnaeth Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon yn y Share Centre yn County Fermanagh, a gostiodd £917,000, wedi trawsnewid y ddarpariaeth ar gyfer diddordebau mynegiannol pobl anabl yr ardal. Mae'r Cyngor wedi dyfarnu 27 grant arall hefyd i bobl anabl a sefydliadau sy'n gwasanaethu anghenion y sector yn uniongyrchol, gan gynnwys y Drake Music Project, Open Arts a Chlwb Ieuenctid Ardoyne.

Plant a phobl ifanc

Plant a phobl ifanc yw dyfodol ein gwlad, ac mae'r Loteri felly'n canolbwyntio'n benodol arnynt. Mae pob person ifanc yn haeddu'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd, ac mae arian y Loteri yn cynnig cyfleoedd iddynt gyflawni eu potensial yn llawn.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi lansio rhaglen £205 miliwn i gefnogi gweithgareddau dysgu o gwmpas y diwrnod ysgol, penwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Bydd y fenter hon yn creu gweithgareddau rheolaidd yn hanner yr holl ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig, ac yn chwarter yr ysgolion cynradd yn y Deyrnas Unedig.

Mae cymryd rhan mewn chwaraeon yn rhoi gobaith newydd i lawer o bobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i'r arfer o droseddu neu gymryd cyffuriau. Mae'n meithrin hunan-gred a theimlad o gyflawni ynddynt, lle mae dulliau traddodiadol wedi methu yn aml. Mae llawer o raglenni sportscotland yn canolbwyntio ar bobl

ifanc ac ar ddarparu cyfleoedd iddynt, rhaglenni TOP a Junior Group yn benodol.

Mae Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi ariannu dros 600 o grantiau Loteri gwerth £300 miliwn i brosiectau cyfalaf sydd o fudd i blant a phobl ifanc, a dros £45 miliwn i brosiectau celfyddydau cymunedol wedi'u cynllunio i annog mwy o bobl ifanc i ymwneud â'r celfyddydau. Dyfarnwyd dros £30 miliwn i ysgolion a cholegau ar draws y wlad i ehangu eu gweithgareddau artistig a chreu theatrau cymunedol, orielau a chanolfannau celfyddydol newydd; rhoddwyd £60 miliwn o arian y Loteri i'r National Foundation for Youth Music hefyd dros gyfnod o chwe blynedd, a'i orchwyl yw rhoi cyfle i gymaint o blant a phobl ifanc â phosibl i gael profiad o greu cerddoriaeth, a chymryd rhan ynddo. Er 1997, mae rhaglen Celfyddyd i Bawb Cyngor Celfyddydau Cymru wedi rhoi bron i 600 o grantiau i brosiectau sy'n cynnwys pobl ifanc, gan wneud cyfanswm o dros £9.3 miliwn, ac o'r rheiny, rhoddwyd 250 o grantiau'n uniongyrchol i ysgolion. Er enghraifft, roedd grant o £401,000 i Willows High School yng Nghaerdydd yn eu galluogi i greu canolfan gelfyddydau gymunedol, a arweiniodd at welliannau sylweddol yn y canlyniadau academaidd cyffredinol.

Un o brif flaenoriaethau'r Gronfa Gymunedol yw bodloni anghenion plant a phobl ifanc difreintiedig, a hyrwyddo'u datblygiad yn y dyfodol a chreu cyfleoedd iddynt. Er enghraifft, trwy grant o £22,077 dros gyfnod o dair blynedd, galluogwyd i wasanaeth benthyg llyfrgell deganau symudol yn Sir Drefaldwyn ddarparu offer chwarae cyffrous a phwrpasol i blant, llawer ohonynt yn byw mewn cymunedau gwledig unig.

Gan edrych tua'r dyfodol, bydd pobl ifanc yn elwa o gynllun Young Roots Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a roddwyd ar brawf gyda'r Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol yn Swydd Efrog a Humberside yn 2000. Datblygwyd y cynllun yn benodol i ennyn ceisiadau ar gyfer prosiectau i bobl ifanc 13-18 oed, ac i gael y bobl ifanc i gymryd rhan weithgar yn y gwaith o ddeall a gwarchod yr hyn maent yn ei ddeall yw eu treftadaeth. Roedd y cynllun peilot hwn yn cefnogi cynlluniau megis hwnnw gan grŵp o bobl ifanc mewn canolfan alw-i-mewn yn Hessle, East Riding, oedd wedi'u hyfforddi mewn newyddiaduraeth fideo a thechnegau recordio ac ymchwilio eraill wrth iddynt gychwyn ar brosiect i gofnodi hanes eu cymuned leol.

Helpu i drawsnewid cymunedau

Mae'r Loteri wedi cael effaith ar gymunedau lleol, yn bennaf drwy grantiau i sefydliadau llai megis clybiau chwaraeon lleol a chylchoedd chwarae, sydd yn gallu cael effaith arwyddocaol ar fywydau pobl ar draws y wlad. Yn aml iawn, mae rhaglenni'r Loteri yn rhoi pwyslais cryf ar gynnwys pobl yn y gymdeithas a'u cael i deimlo'n rhan ohoni, a chael pobl i gymryd mwy o ran mewn gweithgareddau diwylliannol, hamdden a chymdeithasol. Gall prosiectau'r Loteri

fod yn ffynhonnell balchder lleol, gan gynorthwyo i ddod â chymunedau ynghyd a meithrin synnwyr o ysbryd a chydlyniad cymdeithasol.

Mae Comisiwn y Mileniwm yn gweithio ar fentrau mewn trefi a phentrefi ledled y wlad i ailgynnau'r ysbryd cymunedol ac i ddod â phobl ynghyd. Gan gynnwys 550 o neuaddau pentref a chanolfannau cymunedol, clychau newydd neu wedi'u hadnewyddu mewn 400 o eglwysi, a miloedd o Wyliau cymunedol i ddathlu'r flwyddyn 2000, mae'r Comisiwn wedi rhoi bywyd newydd i'n cymunedau. Mae Dyfarniadau'r Mileniwm wedi galluogi unigolion i roi eu syniadau am brosiectau cymunedol ar waith. Canfu Astudiaeth Effaith Gymdeithasol bod 69% o'r rhai a gafodd Grantiau wedi creu gwasanaeth neu gyfleuster cymunedol newydd, a bod 74% wedi cryfhau eu cysylltiadau o fewn eu cymunedau; cryfhaodd 95% o Wyliau eu cysylltiadau yn y gymuned[4]. Roedd y dathliadau unigryw hyn yn cynnwys 1,500 o ddigwyddiadau lleol, gan alluogi'r cymunedau lleiaf hyd yn oed i gymryd rhan felly.

Cynlluniwyd llawer o raglenni'r Gronfa Cyfleoedd Newydd i annog pobl i fod yn ran o fywyd y gymuned. Mae rhaglen ddysgu'r Gronfa y tu allan i oriau ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth godi proffil ysgolion yn lleol, ac wedi bod o fudd i'r gymuned ehangach. Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn annog elfennau gwahanol y gymuned i gynllunio a datblygu prosiectau ar y cyd, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Er enghraifft, mae synnwyr o bwrpas cyffredin yn dod yn amlwg ymysg trigolion Ystradgynlais yng Nghymru. Mae'r gymuned, sy'n wynebu problemau penodol yn cynnwys iechyd meddwl gwael, afiechyd y galon, cancr, iselder a lefel uchel o ddiweithdra, wedi derbyn grant o dros £500,000 o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Bydd y grant yn cael ei ddefnyddio i adnewyddu adeilad fydd yn gartref i'r prosiect Octopus, a gafodd yr enw hwnnw yn sgîl y ffaith y bydd yn ymestyn i bob rhan o'r gymuned.

4. Festival Impact Study, Jura Consultants and Gardiner & Theobald, Awst 2001.

Mae'r arian Loteri a ddosbarthwyd gan y Gronfa Gymunedol wedi bod yn rym i adeiladu cymunedau cryfach, ac annog pobl i fod yn rhan o'r gymuned a chael eu cynnwys ynddi. Yn sgîl grant o £804,437 i Bwyllgor Datblygu Cymunedol West Whitlawburn yn yr Alban dros gyfnod o dair blynedd, cafodd y Bonus Ball Centre ei adeiladu, ac mae ganddo enw ddigon addas hefyd! Defnyddir y ganolfan gymunedol hon gan 40,000 o bobl y flwyddyn, ac mae un ar bymtheg o weithgareddau gwahanol yn cael eu cynnal yno yn ystod yr wythnos, yn amrywio o grwpiau rhieni a phlant bach i ddawnsio dilynol i bobl hŷn, yn ogystal ag amrywiaeth o ddosbarthiadau addysgol bob hyn a hyn.

Un enghraifft o gefnogaeth Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon i fentrau yn y gymuned, yw'r grant i Loughgiel Community Association yn Ballymena. Rhoddwyd £31,375 o arian y Loteri i gefnogi datblygiad cyfleuster ffitrwydd cymunedol. Roedd y prosiect hwn yn ran o ddatblygiad arloesol oedd yn cynnwys ystod eang o wasanaethau cymunedol cyflenwol megis cylchoedd chwarae cyn ysgol, clwb cinio i'r henoed a chynllun cludiant cymunedol.

Mae Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi rhoi dros 1,000 o grantiau'r Loteri i sefydliadau celfyddydau cymunedol neu wirfoddol i brynu offer newydd, cerbydau neu offerynnau cerdd, gan gynnwys dros 30 o grantiau i neuaddau pentref ledled y wlad i brynu llwyfannau newydd ac offer goleuo. Mae nifer o grantiau cyfalaf oddi wrth Gyngor Celfyddydau'r Alban wedi cynorthwyo cymunedau gwledig i adnewyddu neuaddau lleol a phrynu offer iddynt, er mwyn rhoi cartref gwell i raglenni celfyddydol. Mae grantiau cymharol fach, megis y grant hwnnw ar gyfer adnewyddu'r Wynd Theatre yn Melrose, yn adeiladu ar ymrwymiad a brwdfrydedd y gefnogaeth wirfoddol yn lleol i gynnig profiadau o safon i gymunedau bychain yn y celfyddydau.

Mae Menter Treftadaeth Leol Cronfa Dreftadaeth y Loteri, sydd wedi rhoi bron i £2.9 miliwn i 233 o brosiectau bach lleol hyd yn hyn, yn helpu cymunedau cefn gwlad i adnabod, archwilio a gwarchod yr agweddau hynny o'u treftadaeth y maent hwy yn eu hystyried yn bwysig. Mae'r cynllun yn darparu cymorth a chyngor proffesiynol wrth ddatblygu prosiectau, ac mae wedi creu cyfleoedd

gwych i bobl leol gyfrannu at gynlluniau i wella'u hamgylchedd, ynghyd â rhannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gorffennol sy'n gyffredin iddynt.

Buddsoddi mewn pobl

Yn naturiol, mae'r symiau mawr a roddwyd i sefydliadau cenedlaethol mawr yng nghyfnod cyntaf trwydded y Loteri, wedi dal sylw'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae effeithiau'r Loteri yn mynd tu hwnt i frics a morter. Gwelwyd symudiad pendant oddi wrth brosiectau cyfalaf mawr i brosiectau sydd â phobl yn ganolog iddynt. Roedd diwygiadau 1998 i'r Loteri Cenedlaethol yn rhoi llawer iawn mwy o bwyslais ar ariannu pobl a gweithgareddau, yn ogystal ag adeiladau a phrosiectau cyfalaf eraill. Mae canran y grantiau ariannu refeniw wedi cynyddu o 9% i 31% ers y diwygiadau, ac mae nifer y grantiau bach i grwpiau cymunedol wedi treblu a mwy. O ganlyniad, mae mwy o sefydliadau a grwpiau cymunedol yn elwa nag erioed.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn gwario dros £4 miliwn (tua 25% o'i incwm) ar raglenni refeniw, gan fuddsoddi mewn pobl. Un stori lwyddiannus iawn yw cynllun grantiau'r Gist Gymunedol a sefydlwyd mewn partneriaeth gyda phob awdurdod lleol. Rhoddir grantiau hyd at £750 ar lefel leol iawn, gan alluogi'r cynllun i wneud gwahaniaeth aruthrol i chwaraeon ledled Cymru. Mae'r ffaith bod y broses benderfynu wedi'i datganoli a bod natur y cynllun yn symlach yn sicrhau bod sefydliadau chwaraeon yn gallu elwa'n fawr o arian y Loteri. Rhagwelir y bydd dros 5,000 o hyfforddwyr wedi cael hyfforddiant ac y bydd 2,500 o dimoedd iau newydd wedi cael eu sefydlu. Ym 1997, cychwynnodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei raglen grantiau bach, gan gynnig llwybr cyflym i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol at arian y Loteri. Erbyn mis Mawrth 2001, roedd y Cyngor wedi rhoi 1,357 o grantiau bach, yn gwneud cyfanswm o £4.2 miliwn.

Trwy fuddsoddi yn adeiledd cymunedau lleol ledled yr Alban yn y Rhaglen Gyfalaf a Chyfleusterau Chwaraeon, mae sportscotland wedi cynorthwyo pobl yn y cymunedau hyn i ddatblygu eu sgiliau mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys gwella galluoedd hyfforddi a gweinyddu, a chyflwyno amrywiaeth o gyfleoedd chwaraeon mewn ffordd gynaladwy.

Grantiau bach lleol: Dyfarniadau i Bawb

Bu'r cynllun Dyfarniadau i Bawb yn un o brif lwyddiannau'r Loteri. Mae wedi bod yn bwynt mynediad unigol effeithiol i grwpiau bychain sy'n chwilio am grantiau rhwng £500 a £5,000 i ariannu ystod eang o brosiectau yn y gymuned. Hyd yn hyn, mae dros 26,500 o grantiau, gwerth mwy nag £88 miliwn, wedi cael eu rhoi

yn Lloegr, a dros 6,600 o grantiau, gwerth bron i £18 miliwn, yn yr Alban. Mae'r cynllun wedi cael ei ymestyn i Gymru a Gogledd Iwerddon hefyd yn 2001.

Mae'r cynllun wedi'i anelu at grwpiau sy'n ymwneud â'r gymuned. Mae Dyfarniadau i Bawb yn awyddus i gynnig cyfleoedd i bobl nad ydynt efallai wedi cael cyfle i fod yn rhan o'r gymuned cyn hyn, a gellir defnyddio'r arian i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl fwynhau gweithgarwch o'u dewis, beth bynnag fo'u hoed, eu rhyw, eu hanabledd, eu hil neu leoliad eu cartref. Nod y rhaglen yw darparu:

- **grantiau bychain i grwpiau bach lleol;**
- **ceisiadau drwy gydol y flwyddyn, heb derfynau amser;**
- **dim angen arian partneriaeth ar ffurf arian parod.**

Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol o effaith y cynllun Dyfarniadau i Bawb yn Lloegr, a phrofwyd bod Dyfarniadau i Bawb wedi cwrdd â'i brif amcanion, sef:

- **cefnogi gweithgarwch cymunedol: mae 83% o sefydliadau sy'n gwneud cais yn honni nad ydynt erioed wedi derbyn grant o'r blaen, a dywedodd 70% o'r rhai gafodd gyfweliad bod sefydlogrwydd eu sefydliad wedi cynyddu o ganlyniad i'r prosiect. Cyflawnwyd bron i 95% o'r prosiectau gan wirfoddolwyr.**
- **ehangu'r mynediad a'r cyfranogiad: derbyniwyd ceisiadau o bob ardal awdurdod lleol yn Lloegr. Dywedodd 83% o'r rhai gafodd gyfweliad bod y prosiect wedi eu galluogi i gyrraedd mwy o gyfranogwyr na'r arfer, a dywedodd bron i ddwy ran o dair bod y prosiect wedi eu galluogi i gyrraedd grwpiau cyfranogwyr newydd.**
- **gwella medrau a chreadigrwydd: dywedodd dros 75% o'r rhai gafodd gyfweliad bod eu prosiect wedi gwella eu sgiliau, a dywedodd mwyafrif y sefydliadau bod y prosiect Dyfarniadau i Bawb wedi cynyddu eu hyder, wedi eu gwneud yn fwy anturus, wedi gwella ansawdd eu gwaith ac wedi gwella eu sgiliau rheoli prosiect.**
- **gwella ansawdd bywyd: dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai gafodd gyfweliad bod eu prosiect wedi gwella ansawdd bywyd y cyfranogwyr, wedi cynyddu eu hyder, wedi cryfhau cysylltiadau yn y gymuned ac wedi codi balchder lleol[5].**

5. Awards for All Impact Study, Annabel Jackson Associates, Mehefin 2001

Astudiaeth Achos

Ski-am, wedi'i leoli yn Alloa, Clackmannanshire

Mae Ski-am, sydd wedi'i leoli yn Alloa, Clackmannanshire, yn cynnig cyfle i bobl ag anghenion arbennig gymryd rhan mewn gweithgareddau sgïo alpaidd, yn weithgareddau adloniadol, cymdeithasol a chystadleuol. Cafodd y grŵp grant o £1,400 o'r cynllun Dyfarniadau i Bawb yn yr Alban, i brynu llafnau eira a sgi-eistedd. Defnyddiwyd yr offer i hybu'r cyfleoedd sydd ar gael i aelodau'r grŵp.

Y Loteri fel hwb i adfywiad

Mae arian y Loteri Cenedlaethol wedi helpu i adfywio ardaloedd trefol a gwledig, gan ddod â buddion i gymunedau sydd wedi bod yn dirywio yn y gorffennol.

Mae Comisiwn y Mileniwm wedi rhoi dros £300 miliwn mewn prosiectau adfywio yn Belfast, Coventry, Llundain, Leeds, Manceinion a Sheffield, ymhlith rhai eraill. Bydd llawer o ddatblygiadau graddfa fawr yn y dinasoedd yn fan cychwyn i adfywiad pellach, gan ysgogi buddsoddiadau gan gwmnïau masnachol a chreu hyd yn oed fwy o effaith. Ym Mryste, cafodd prosiect adfywio trefol mewn deng erw o dir diffaith, grant o dros £45 miliwn. Mae'r atyniad hwn yn cynnwys y ganolfan wyddoniaeth ymarferol Explore, a'r atyniad bywyd gwyllt Wildwalk, gan gynnig cyfle i ymwelwyr gael profiad byw ac agos o'r byd naturiol. Mae sinema IMAX yno hefyd, ynghyd â llecynnau newydd o gwmpas yr atyniadau celf ac adloniant i'r cyhoedd. Mewn llawer o achosion, mae Prosiectau Cyfalaf wedi llwyddo i adfywio ardaloedd allweddol o'r wlad, neu wedi ysgogi adfywiad. Bydd cymunedau'n elwa am flynyddoedd lawer i ddod.

Mae rhaglenni Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn llwyddo i adfywio drwy gefnogi mesurau adnewyddu trefi a thrwy gynyddu hunaniaeth a balchder cymunedau, ac annog pobl i gyfrannu yn eu cymunedau. Mae rhai cynlluniau, megis y Fenter Treftadaeth Treflun, Addoldai ar y Cyd a'r Rhaglen Parciau Trefol, wedi'u targedu'n benodol at ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd, ac maent yn dechrau esgor ar ganlyniadau. Mae cyfanswm o tua £266.5 miliwn wedi ei neilltuo o dan y rhaglenni hyn. Gan gefnogi partneriaethau adfywio lleol, bwriad cynllun Menter Treftadaeth Treflun Cronfa Dreftadaeth y Loteri yw dod â phobl yn ôl i'r trefi a'r dinasoedd drwy drwsio ac ailddefnyddio adeiladau hanesyddol mewn ardaloedd trefol difreintiedig sy'n dirywio. Mae dros £178 miliwn o arian y Loteri wedi ei neilltuo i drwsio ac adnewyddu dros 350 o barciau cyhoeddus gwledig, gan ddod â bywyd yn ôl i rai o asedau treftadaeth mwyaf hoff y genedl; yn aml iawn, y parciau hyn yw'r unig lecynnau gwyrdd sydd ar gael mewn dinasoedd i bobl ymlacio a cherdded ynddynt.

Mae'r celfyddydau yn chwarae rhan hanfodol yn y broses adfywio, wrth roi ffocws ar gyfer adnewyddu mewn ardaloedd trefol a gwledig, a hyrwyddo lles unigolion a chymunedau trwy ysgogi rhyngweithio cymdeithasol. Mae buddsoddiad Loteri Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi cefnogi 239 o brosiectau celf sy'n canolbwyntio ar adfywio'n benodol, ac mae wedi rhannu cyfanswm o £443 miliwn mewn grantiau. Un enghraifft yw'r £44.6 miliwn a ddyfarnwyd i Gyngor Dinas Salford ar gyfer y Lowry Centre, sef adeiladau ar lan y dŵr sydd wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer adfywio Salford Quays. Buddsoddodd y sector preifat dros £200 miliwn yn yr ardal erbyn 1998, ac ymwelodd mwy o ymwelwyr â chanolfan Lowry nag a ragwelwyd. Mae Dinas Dundee wedi derbyn bron i £11 miliwn mewn arian Loteri oddi wrth y Scottish Arts Council, a buddsoddwyd y rhan fwyaf ohono mewn adeiladau newydd ar gyfer y celfyddydau. Mae'r

Dundee Rep Theatre wedi cael ei adnewyddu'n helaeth a'i ehangu, a bellach mae'n cynnwys stiwdio ddawns bwrpasol, tra bod Coleg Dundee wrthi'n adeiladu The Space, sef cartref newydd i berfformio dawns ac addysg. O ganlyniad, mae delwedd y ddinas yn cael ei gweddnewid yn gartref creadigol a deinamig i'r celfyddydau.

Creu Swyddi

Mae'r Loteri wedi creu swyddi mewn llawer o sectorau ledled y wlad. Bu'n gymorth i greu a sicrhau swyddi ym maes adeiladu a galwedigaethau cysylltiedig, manwerthu a gweithrediadau.

Canfu Asesiad Effaith Economaidd annibynnol o holl raglenni Comisiwn y Mileniwm bod llawer o swyddi wedi eu creu o ganlyniad i'w fuddsoddi[6]. Er mai digwyddiadau tymor byr oedd y Gwyliau, cyflogodd 7% ohonynt un aelod o staff parhaol llawn-amser o leiaf. Ar draws holl raglenni'r Comisiwn, mae 6,900 o swyddi parhaol wedi cael eu creu, yn ogystal â 6,400 o swyddi ychwanegol tymor byr. Amcangyfrifir felly bod cyfuniad cyfwerth â 13,300 o swyddi parhaol llawn-amser wedi cael eu creu gan raglenni'r Comisiwn.

Mae prosiectau chwaraeon a ariennir gan y Loteri yn creu cryn nifer o swyddi, yn ystod y broses adeiladu ac ar ôl iddynt gychwyn. Bu cwmni adeiladu cenedlaethol â'i ganolfan yn Efrog, ond â swyddfa leol yng Nghaerdydd, ynghlwm wrth adeiladu'r Ganolfan Athletau Genedlaethol Dan Do yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd. Buont yn cyflogi chwe aelod o staff llawn-amser yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect, ynghyd ag is-gontractwyr, gan ddefnyddio dros 15 o gwmnïau lleol, yn ystod y cyfnodau adeiladu a gosod offer. Ar ôl cwblhau'r gwaith, creodd y cyfleuster newydd swyddi ar gyfer nifer o staff llawn-amser a rhan-amser, gan gynnwys rheolwr y ganolfan, rheolwyr dyletswyddau, gofalwyr, staff swyddfa, staff gwyddor chwaraeon a'r Hyfforddwr Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer Athletau, sydd bellach yn gweithio yn y ganolfan.

Cafwyd sawl enghraifft o gyflogi mwy o bobl o ganlyniad i brosiectau sportscotland a ariannwyd gan y Loteri, megis canolfannau chwaraeon a hamdden newydd mewn ardaloedd trefol. Er enghraifft, wrth adeiladu'r Gorbals Leisure Centre yn Glasgow,
cafodd 47 o swyddi llawn-amser a 22 o swyddi rhan-amser eu creu yn y Ganolfan ei hun, gyda 10 o swyddi llawn-amser a 2 swydd ran-amser ychwanegol yn cael eu creu gan y grant refeniw cysylltiedig. Mewn llawer achos, mae grant o Gronfa'r Loteri i glybiau chwaraeon gwirfoddol wedi arwain at weld mwy o wirfoddolwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o'u cynnal, wrth i gyfleusterau newydd annog mwy o bobl i'w defnyddio.

6. Economic Impact Assessment, Jura Consultants and Gardiner & Theobald, Gorffennaf 2001.

Dangosodd astudiaeth o effaith arian cyfalaf Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon, bod tua 1 o bob 10 o'r clybiau a gefnogir gan arian y Loteri wedi creu swyddi newydd hir dymor o ganlyniad i ddatblygu cyfleusterau a ariannwyd gan y Loteri.

Mae'r digwyddiadau chwaraeon mawr sy'n dod i'r Deyrnas Unedig o ganlyniad i arian gan y World Class Events Programme, yn dibynnu ar nifer helaeth iawn o weithwyr cyflogedig a gweithwyr gwirfoddol. Er mai am gyfnod cymharol fyr y mae'r swyddi hyn yn para, oherwydd natur y digwyddiadau, mae staff proffesiynol a gwirfoddol fel ei gilydd yn cael cyfle i ychwanegu at eu sgiliau a'u profiad, ac maent wedi cyfrannu at greu sylfaen staffio gwych ar gyfer digwyddiadau ledled y wlad yn y dyfodol.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd eisoes wedi ariannu llawer o swyddi megis rheolwyr, gweithwyr chwarae, cyd-gysylltwyr a gweithwyr prosiect eraill, drwy ei rhaglenni presennol. Mae dau gynllun cyfalaf mawr ar y gweill, fydd yn adeiladu meithrinfeydd a chyfleusterau chwaraeon ysgol. Disgwylir i'r rhaglenni hyn, sy'n cael eu lansio yn 2002, greu cyfleoedd sylweddol o ran swyddi i bobl leol yn y sectorau adeiladu a manwerthu.

Gall cynlluniau treftadaeth unigol ddod â swyddi a chreu ffyniant, hefyd. Mae grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri o £25 miliwn i Gamlas Kennet ac Avon, yn helpu i adfer adeileddau camlas ac adeileddau hanesyddol, a gwella'r mynediad i ymwelwyr a mesurau gwarchod natur ar hyd yr 87 milltir o Reading i Fryste. Ar wahân i'r potensial amlwg o ran twristiaeth, y rhagwelir y bydd yn rhoi £28 miliwn pellach i mewn i'r economi leol ac a ddylai ddiogelu a chreu cyfanswm o 2,600 o swyddi, amcangyfrifir bod y prosiect wedi tynnu £48 miliwn ychwanegol o fuddsoddiad sector preifat i mewn i'r ardal.

Astudiaeth Achos

Gemau'r Gymanwlad ym Manceinion

Elwodd cyfleusterau Gemau'r Gymanwlad ym Manceinion o fuddsoddiad £112 miliwn o Gronfa Loteri Sport England. Disgwylir y bydd Gemau'r Gymanwlad ym Manceinion yn 2002 yn creu manteision economaidd a chymdeithasol sylweddol yn ystod y cyfnod adeiladu, yn ystod y Gemau eu hunain, ac wedi hynny. Mae deugain hectar o dir wedi cael ei adennill, denwyd £36.7 miliwn o fuddsoddiad sector preifat, a chrëwyd llawer o swyddi: cyfwerth â swydd am flwyddyn i 1,755 o bobl yn ystod y cyfnod adeiladu, cyfwerth â swydd am flwyddyn i 418 o bobl yn ystod y Gemau, 482 o swyddi parhaol ar ôl y Gemau ar y safleoedd, a 3,228 o swyddi parhaol mewn mannau eraill.

4. Bod o Fudd i Bawb yn y Deyrnas Unedig

Mynediad cyfartal i bawb

Mae'r Llywodraeth a dosbarthwyr y Loteri wedi ymrwymo i sicrhau fod arian ar gael i bob sector yn y gymdeithas. Roedd sefydlu llinell ffôn a phorth rhyngrwyd i ofyn am nawdd y Loteri ym mis Chwefror 2001, yn ran o'r broses hon. Wedi'i ariannu ar y cyd gan ddosbarthwyr y Loteri yn Lloegr a'r Deyrnas Unedig gyfan, mae'r llinell ffôn (0845 275 0000) yn sicrhau bod gwybodaeth am arian y Loteri ar gael yn hawdd i grwpiau sydd heb lawer o brofiad o wneud cais am arian. Mae'r porth rhyngrwyd ar y cyd yn www.lotterygoodcauses.org.uk yn cyfeirio'r sawl sy'n pori i'r tudalennau ar wefannau'r dosbarthwyr, sydd yn amlinellu sut i wneud cais am grant. Yn ogystal, mae dosbarthwyr y Loteri wedi mynd ati i symleiddio'r broses gwneud cais am grantiau yn sylweddol, gan roi'r nawdd o fewn cyrraedd cymaint o bobl â phosibl.

Un o feini prawf strategol Comisiwn y Mileniwm ar gyfer dyfarnu grantiau oedd bod prosiectau'n gorfod bod ar gael i bob sector o'r gymuned. Dim ond rhyw 25% o brosiectau cyfalaf y Comisiwn sy'n codi tâl mewn atyniadau ymwelwyr, ac mae llawer o brosiectau, megis y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, ar gael yn rhad ac am ddim i bawb. Mae cynllun Dyfarniadau'r Mileniwm wedi ymestyn allan i bob cymuned, ac mae 69% o brosiectau'r rheiny sydd wedi derbyn Grant wedi cynorthwyo i leihau achosion o unigedd o fewn cymunedau; roedd 91% o Wyliau'r Mileniwm ar agor i unrhyw un, 83% ohonynt â mynediad rhad ac am ddim.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd wedi nodi hyrwyddo cydraddoldeb fel un o'i amcanion strategol, ac mae'n cymryd camau i sicrhau bod ei arian ar gael i bob cymuned, yn enwedig grwpiau nad oes ganddynt lawer o brofiad o wneud cais am grant.

Dosbarthiad Daearyddol

Mae'r Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dosbarthu'r Loteri sicrhau fod pob rhan o'r Deyrnas Unedig yn cael mynediad i arian y Loteri. Yn y gorffennol, cafwyd rhywfaint o amrywiaeth o ran maint a nifer y grantiau rhwng ardaloedd gwahanol y wlad. Mae dosbarthwyr yn annog ceisiadau o ardaloedd nad ydynt yn gwneud llawer o geisiadau am arian Loteri, megis ardaloedd glofaol, trefi bychain a threfi glan môr. Hefyd, yn ddiweddar, cyhoeddodd y Llywodraeth fenter £150 miliwn wedi'i thargedu, i'w chefnogi gan y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Bydd yn ariannu prosiectau mewn 50 o awdurdodau lleol difreintiedig ledled y Deyrnas Unedig nad ydynt eto wedi derbyn cyfran teg o arian y Loteri.

Gweler y map drosodd

Manylion y dyfarniadau
yn ôl ardal ddaearyddol

1.	Dwyrain Canolbarth Lloegr	6,273 o ddyfarniadau - £355 miliwn
2.	Dwyrain Lloegr	5,480 o ddyfarniadau - £436 miliwn
3.	Llundain	8,990 o ddyfarniadau - £1,531 miliwn
4.	Gogledd Ddwyrain Lloegr	4,955 o ddyfarniadau - £427 miliwn
5.	Gogledd Orllewin Lloegr	7,276 o ddyfarniadau - £845 miliwn
6.	De Ddwyrain Lloegr	7,850 o ddyfarniadau - £612 miliwn
7.	De Orllewin Lloegr	8,870 o ddyfarniadau - £550 miliwn
8.	Gorllewin Canolbarth Lloegr	7,451 o ddyfarniadau - £563 miliwn
9.	Swydd Efrog a Humberside	6,683 o ddyfarniadau - £544 miliwn
10.	Gogledd Iwerddon	3,913 o ddyfarniadau - £328 miliwn
11.	Yr Alban	14,428 o ddyfarniadau - £928 miliwn
12.	Cymru	7,535 o ddyfarniadau - £485 miliwn

Lloegr Gyfan	2,762 o ddyfarniadau - £1,005 miliwn
Drwy Gymru a Lloegr	6 dyfarniad - £31 miliwn
Drwy Brydain	779 o ddyfarniadau - £16 miliwn
Drwy'r Deyrnas Unedig	3,182 o ddyfarniadau - £1,019 miliwn
Dramor	553 o ddyfarniadau - £110 miliwn

Mae Sport England wedi ymrwymo i sicrhau bod arian y Loteri yn cael ei ddosbarthu'n gyson. Hyd yn hyn, rhoddwyd arian i brosiectau mewn dros 350 o ardaloedd awdurdod lleol ym mhob sir. Fodd bynnag, rhaid cydnabod bod rhaid cydbwyso'r arfer o ddosbarthu arian y Loteri yn deg yn erbyn amcan y corff o sicrhau bod arian y Loteri yn cael ei dargedu i'r ardaloedd â'r angen mwyaf.

Mae Cyngor Celfyddydau Lloegr wedi rhoi grantiau'r Loteri i artistiaid a sefydliadau celf ym mhob awdurdod lleol yn Lloegr, tra bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi rhoi grantiau'r Loteri i bob awdurdod unedol yng Nghymru.

Mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd yn monitro'r gwaith o ddosbarthu grantiau ar draws y Deyrnas Unedig yn ofalus. Ei nod yw sicrhau bod grantiau yn cael eu dosbarthu'n deg, tra'n sicrhau hefyd bod ardaloedd difreintiedig penodol yn cael blaenoriaeth fel bo'n briodol. Er enghraifft, mae wedi dyfarnu bron i £200,000 drwy ei raglen mynediad y gymuned i ddysgu gydol oes, i'r consortia Dysgu gydol Oes a arweinir gan yr Amgueddfeydd a'r Orielau Cenedlaethol ar Lannau Merswy. Bydd y grant yn galluogi amrywiaeth eang o 'rith ymwelwyr' ar draws y Deyrnas Unedig a thu hwnt i weld casgliadau, adeiladau hanesyddol ac adnoddau eraill o dan y cynllun Treftadaeth ar-lein.

Clustnododd Comisiwn y Mileniwm dri o feini prawf strategol i seilio'i grantiau i brosiectau cyfalaf arnynt; un o'r meini prawf hynny oedd y dylai'r prosiectau fod wedi'u gwasgaru'n dda ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r Comisiwn wedi cefnogi o leiaf un prosiect mawr ym mhob rhanbarth neu wlad yn y Deyrnas Unedig. Hefyd, mae prosiectau ymbarél, megis Church Floodlighting a Millennium Greens, yn cysylltu cymunedau ar draws y wlad. Mae cynllun Dyfarniadau'r Mileniwm wedi dosbarthu grantiau ym mhob sir yn y Deyrnas Unedig, o Ynysoedd yr Hebrides i Ynysoedd Sili. Cynhaliwyd 2,200 o ddigwyddiadau Gŵyl y Mileniwm dros y wlad i gyd, gyda digwyddiadau Nos Galan 2000 mewn 32 o drefi a dinasoedd.

Mae holl raglenni Arian Loteri sportscotland yn rhaglenni cenedlaethol, ac mae sportscotland yn dosbarthu grantiau yn eang ledled yr Alban mewn ymateb i geisiadau. Hyd yn hyn, mae Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon wedi buddsoddi bron i £30 y pen o'r boblogaeth yng Ngogledd Iwerddon. Rhoddwyd grantiau ar gyfer prosiectau drwy'r dalaith gyfan, ac mae pob un o'r 26 Cyngor Dosbarth yng Ngogledd Iwerddon wedi elwa o'r arian.

5. Diweddglo

Codwyd dros £12 biliwn at achosion da, ac mae'r cyrff dosbarthu wedi rhoi dros 97,000 o grantiau, gyda 77% o'r cyhoedd yn teimlo bod y Loteri at ei gilydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y Deyrnas Unedig[7].

Sefydlwyd y Loteri gan y Llywodraeth er mwyn gwella ansawdd bywyd i bawb, drwy ddosbarthu arian er mwyn gweddnewid y meysydd hynny lle mae pawb yn cael cyfle i gyfrannu, naill ai fel gwylwyr neu gyfranogwyr. Roedd hon yn dipyn o her i bawb ynghlwm wrth y Loteri Cenedlaethol, gan gynnwys cyrff dosbarthu'r Loteri a Camelot, yn ogystal â'r Llywodraeth ei hun.

Mewn cyfnod amser cymharol fyr, mae'r Loteri Cenedlaethol wedi codi symiau mawr i bob un o'r achosion da. Diolch i lwyddiant y Loteri, roedd y Llywodraeth yn gallu ehangu ffocws y Loteri ymhellach na chefnogaeth cyfalaf, i gynnwys cefnogaeth refeniw hefyd. Mae wedi annog dosbarthwyr i dargedu ardaloedd nad ydynt yn gwneud llawer o geisiadau am arian Loteri. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn sgîl Deddf Loteri 1998 a'r cyfarwyddiadau polisi diwygiedig, bellach yn dechrau dod â budd i ardaloedd a grwpiau nad oedd ganddynt ddigon o gynrychiolaeth o'r blaen yn ôl mesurau dosbarthu grantiau'r Loteri. Ac yn awr, mae gwneud cais am arian y Loteri yn haws o lawer.

Mae'r Loteri Cenedlaethol wedi cael effaith economaidd a chymdeithasol: mae wedi datblygu'n rym ar gyfer adfywio, dod â chymunedau ynghyd ac ar gyfer ailfywiogi'r sectorau sy'n gwella ansawdd ein bywydau. Er enghraifft, mae arian y Loteri wedi cynorthwyo i:

- **ddarparu cyfleusterau diwylliant a chwaraeon gwell a newydd**
- **adfywio amgylcheddau oedd yn cael eu hesgeuluso'n flaenorol**
- **creu swyddi**
- **manteisio ar gyfleoedd economaidd newydd i fusnesau lleol**
- **cefnogi cymunedau trefol a gwledig**
- **cynorthwyo pobl ifanc, pobl hŷn a phobl ag anableddau.**

7. Adroddiad Monitro Effaith y Loteri ar effaith pum mlynedd gyntaf y Loteri Cenedlaethol ar fywyd cenedlaethol 1994-1999.

Dylai'r Loteri fynd o nerth i nerth yn ystod y cyfnod trwydded nesaf, gan ddarparu mwy o arian i'r achosion da a nodir yn yr adroddiad hwn. Ond mae amserau llawn her o'n blaen wrth geisio osgoi 'Syrffed ar y Loteri' a all arwain at werthu llai o docynnau. Mae hynny'n golygu bod rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r Loteri weithio i gynnal y gefnogaeth a'r hyder cyhoeddus a adeiladwyd yn y saith mlynedd gyntaf.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut i wneud cais am arian Loteri, ffoniwch 0845 275 0000 neu trowch at www.lotterygoodcauses.org.uk.

Crynodeb o grantiau'r Loteri

Crynodeb o'r Grantiau gan Gorff Dosbarthu

Distributing Body	**- Corff Dosbarthu**
No of Projects	**- Nifer y Prosiectau**
Amount (£)	**- Swm (£)**
Arts Council of England	**- Cyngor Celfyddydau Lloegr**
Arts Council of Northern Ireland	**- Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon**
Arts Council of Wales	**- Cyngor Celfyddydau Cymru**
Film Council	**- Y Cyngor Ffilmiau**
Scottish Arts Council	**- Cyngor Celfyddydau'r Alban**
Tofal for Arts	**- Cyfanswm i'r Celfyddydau**
Community Fund	**- Y Gronfa Gymunedol**
Total for Charitable Expenditure	**- Cyfanswm ar gyfer Gwariant ar Elusen**
New Opportunities Fund	**- Cronfa Cyfleoedd Newydd**
Total for Health, Education, Environment	**- Cyfanswm ar gyfer Iechyd, Addysg a'r Amgylchedd**
Heritage Lottery Fund	**- Cronfa Dreftadaeth y Loteri**
Total for Heritage	**- Cyfanswm ar gyfer Treftadaeth**
Millennium Commission	**- Comisiwn y Mileniwm**
Total for Millennium	**- Cyfanswm ar gyfer y Mileniwm**
Sport England	
Sport Scotland	
Sports Council for Northern Ireland	**- Cyngor Chwaraeon Gogledd Iwerddon**

Sports Council for Wales - **Cyngor Chwaraeon Cymru**

UK Sport

Total for Sports - **Cyfanswm ar gyfer Chwaraeon**

Totals - **Cyfansymiau**

Grand Total - **Y Cyfanswm**

Manylion ynghylch Nifer y Grantiau yn ôl Ardal Ddaearyddol

Arts	**- Y Celfyddydau**
Charitable Expenditure	**- Gwariant ar Elusen**
Health, Education, Environment	**- Iechyd, Addysg a'r Amgylchedd**
Heritage	**- Treftadaeth**
Millennium	**- Mileniwm**
Sport	**- Chwaraeon**
Total	**- Cyfanswm**
England	**- Lloegr**
All England	**- Lloegr gyfan**
East Midlands	**- Dwyrain Canolbarth Lloegr**
Eastern	**- Dwyrain Lloegr**
London	**- Llundain**
North East	**- Gogledd Ddwyrain Lloegr**
North West	**- Gogledd Orllewin Lloegr**
South East	**- De Ddwyrain Lloegr**
South West	**- De Orllewin Lloegr**
West Midlands	**- Gorllewin Canolbarth Lloegr**
Yorkshire & Humberside	**- Swydd Efrog a Humberside**
N/A	**- Amherthnasol**
Total	**- Cyfanswm**
N Ireland	**- Gogledd Iwerddon**
Total	**- Cyfanswm**
Scotland	**- Yr Alban**
Total	**- Cyfanswm**
Wales	**- Cymru**
Total	**- Cyfanswm**
E & W Wide	**- Drwy Gymru a Lloegr**

Total	**- Cyfanswm**
GB Wide	**- Drwy Brydain**
Total	**- Cyfanswm**
UK Wide	**- Drwy'r Deyrnas Unedig**
Total	**- Cyfanswm**
Overseas	**- Dramor**
Total	**- Cyfanswm**

Manylion ynghylch Gwerth y Grantiau yn ôl Ardal Ddaearyddol

Arts	**- Y Celfyddydau**
Charitable Expenditure	**- Gwariant ar Elusen**
Health, Education, Environment	**- Iechyd, Addysg a'r Amgylchedd**
Heritage	**- Treftadaeth**
Millennium	**- Mileniwm**
Sport	**- Chwaraeon**
Total	**- Cyfanswm**

England	**- Lloegr**
All England	**- Lloegr gyfan**
East Midlands	**- Dwyrain Canolbarth Lloegr**
Eastern	**- Dwyrain Lloegr**
London	**- Llundain**
North East	**- Gogledd Ddwyrain Lloegr**
North West	**- Gogledd Orllewin Lloegr**
South East	**- De Ddwyrain Lloegr**
South West	**- De Orllewin Lloegr**
West Midlands	**- Gorllewin Canolbarth Lloegr**
Yorkshire & Humberside	**- Swydd Efrog a Humberside**
N/A	**- Amherthnasol**
Total	**- Cyfanswm**
N Ireland	**- Gogledd Iwerddon**
Total	**- Cyfanswm**
Scotland	**- Yr Alban**
Total	**- Cyfanswm**
Wales	**- Cymru**
Total	**- Cyfanswm**

E & W Wide	**- Drwy Gymru a Lloegr**
Total	**- Cyfanswm**
GB Wide	**- Drwy Brydain**
Total	**- Cyfanswm**
UK Wide	**- Drwy'r Deyrnas Unedig**
Total	**- Cyfanswm**
Overseas	**- Dramor**
Total	**- Cyfanswm**

Notes **- Nodiadau**

Designed by…

Dyluniwyd gan Iris Associates www.irisassociates.com

dcms

Department for Culture….

Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
2-4 Cockspur Street
Llundain SW1Y 5DH
PP433 Rhagfyr 2001